Deddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026

2026 dsc 2

Bus Services (Wales) Act 2026

2026 asc 2

Lluniwyd Nodiadau Esboniadol yn gymorth i ddeall y Ddeddf hon ac maent ar gael ar wahân.

Explanatory Notes have been produced to assist in the understanding of this Act and are available separately.

£21.10

williams lea | tso
An RRD Company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), rhan o Williams Lea, ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), part of Williams Lea, and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-348-11394-5

9 780348 113945



Deddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026

2026 dsc 2

Bus Services (Wales) Act 2026

2026 asc 2

Deddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026

CYNNWYS

2026 dsc 2

RHAN 1

CYSYNIADAU ALLWEDDOL AC AMCANION CYFFREDINOL

Cysyniadau allweddol

1 Ystyr "gwasanaeth bysiau lleol"
2 Ystyr "man esgyn" a "man disgyn"
3 Ystyr "gwasanaeth bysiau lleol hyblyg" a "gwasanaeth bysiau lleol safonol"

Amcanion

4 Dyletswydd Gweinidogion Cymru i roi sylw i amcanion

RHAN 2

SWYDDOGAETHAU GWEINIDOGION CYMRU SY'N YMWNEUD Â GWASANAETHAU BYSIAU LLEOL

Dyletswyddau craidd Gweinidogion Cymru

5 Gwasanaethau bysiau lleol: dyletswyddau craidd

Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru

6 Llunio Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru
7 Adolygu a diwygio Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru
8 Darpariaeth bellach ynghylch diwygiadau i Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru

Bus Services (Wales) Act 2026

CONTENTS

2026 asc 2

PART 1

KEY CONCEPTS AND GENERAL OBJECTIVES

Key concepts

1 Meaning of "local bus service"
2 Meaning of "embarkation point" and "disembarkation point"
3 Meaning of "flexible local bus service" and "standard local bus service"

Objectives

4 Welsh Ministers' duty to have regard to objectives

PART 2

FUNCTIONS OF THE WELSH MINISTERS RELATING TO LOCAL BUS SERVICES

Core duties of the Welsh Ministers

5 Local bus services: core duties

Welsh Bus Network Plan

6 Preparation of Welsh Bus Network Plan
7 Review and revision of Welsh Bus Network Plan
8 Further provision about revisions to the Welsh Bus Network Plan

9 Diwygio Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru: dyletswyddau awdurdod lleol

Contractau gwasanaeth bysiau lleol

10 Contractau gwasanaeth bysiau lleol
11 Pŵer i wneud darpariaeth atodol ynghylch contractau gwasanaeth bysiau lleol

Trwyddedau gwasanaeth bysiau lleol

12 Trwyddedau gwasanaeth bysiau lleol
13 Cyfnod y mae trwydded gwasanaeth bysiau lleol yn cael effaith
14 Amodau sydd ynghlwm wrth drwyddedau gwasanaeth bysiau lleol
15 Ceisiadau am drwyddedau gwasanaeth bysiau lleol
16 Dirymu trwyddedau gwasanaeth bysiau lleol a'u hatal dros dro
17 Trwyddedau gwasanaeth bysiau lleol: apelau

Gwasanaethau bysiau lleol a ddarperir gan Weinidogion Cymru

18 Gweinidogion Cymru yn darparu gwasanaethau bysiau lleol

Dibynnu ar wasanaethau penodol

19 Dibynnu ar wasanaethau bysiau cymunedol a gwasanaethau eraill penodol at ddibenion dyletswydd adran 5(1)(c)

Gwasanaethau trawsffiniol

20 Gwasanaethau trawsffiniol a'r ddyletswydd i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu

Gofynion adrodd

21 Adroddiad ar gynnydd tuag at amcanion adran 4

Hysbysiad i'w roi i gomisiynydd traffig

22 Hysbysiad i'w roi i gomisiynydd traffig o faterion penodol sy'n ymwneud â chontractau a thrwyddedau gwasanaeth bysiau lleol

RHAN 3

CYFYNGIAD AR DDARPARU GWASANAETHAU BYSIAU LLEOL

23 Cyfyngiad ar ddarparu gwasanaethau bysiau lleol
24 Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hysbysu comisiynydd traffig am unrhyw achos o dorri'r cyfyngiad
25 Gorfodi'r cyfyngiad
26 Gorfodi cyfyngiad: apelau

9 Revision of Welsh Bus Network Plan: local authority duties

Local bus service contracts

10 Local bus service contracts
11 Power to make supplementary provision about local bus service contracts

Local bus service permits

12 Local bus service permit
13 Period for which local bus service permit has effect
14 Conditions attached to local bus service permits
15 Applications for local bus service permits
16 Revocation and suspension of local bus service permits
17 Local bus service permits: appeals

Local bus services provided by the Welsh Ministers

18 Provision of local bus services by the Welsh Ministers

Reliance on certain services

19 Reliance on community bus services and certain other services for the purposes of the section 5(1)(c) duty

Cross-border services

20 Cross-border services and the duty to secure the provision of services

Reporting requirements

21 Report on progress towards section 4 objectives

Notification to be given to a traffic commissioner

22 Notification to be given to traffic commissioner of certain matters relating to local bus service contracts and permits

PART 3

RESTRICTION ON PROVIDING LOCAL BUS SERVICES

23 Restriction on providing local bus services
24 Duty on Welsh Ministers to inform traffic commissioner of any breach of the restriction
25 Enforcement of the restriction
26 Enforcement of restriction: appeals

RHAN 4

GWYBODAETH A DATA

Darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru at ddibenion arfer swyddogaethau penodol

27 Darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru gan weithredwyr presennol a chyn-weithredwyr at ddibenion swyddogaethau o dan Ran 2 neu Ran 3
28 Darparu gwybodaeth am seilwaith a materion eraill penodol i Weinidogion Cymru gan awdurdodau lleol a chynghorau cymuned at ddibenion swyddogaethau o dan Ran 2

Gwybodaeth i'w rhoi i'r cyhoedd

29 Dyletswydd i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r cyhoedd
30 Darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru at ddibenion adran 29

Braint gyfreithiol

31 Darparu gwybodaeth: eithriad ar sail braint gyfreithiol

Gorfodi

32 Gorfodi gofynion gwybodaeth
33 Gorfodi gofynion gwybodaeth: apelau

RHAN 5

PWERAU A DYLETSWYDDAU AWDURDODAU LLEOL

34 Darparu gwasanaethau bysiau gan awdurdodau lleol: dileu'r cyfyngiad
35 Dileu dyletswydd i sicrhau gwasanaethau bysiau lleol
36 Cymorth ariannol mewn cysylltiad â gwasanaethau bysiau lleol

RHAN 6

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

Trosglwyddo ymgymeriadau

37 Cymhwyso Rheoliadau TUPE

Deddf Trafnidiaeth 1985: cofrestru gwasanaethau â chomisiynydd traffig

38 Deddf Trafnidiaeth 1985: dileu gofynion sy'n ymwneud â chofrestru
39 Deddf Trafnidiaeth 1985: cofrestriad presennol etc. yn peidio â chael effaith

PART 4

INFORMATION AND DATA

Provision of information to the Welsh Ministers for the purposes of exercising certain functions

27 Provision of information to the Welsh Ministers by current and former operators for the purposes of functions under Part 2 or 3
28 Provision of information about infrastructure and certain other matters to the Welsh Ministers by local authorities and community councils for the purposes of functions under Part 2

Information to be made available to the public

29 Duty to secure that information is made available to the public
30 Provision of information to the Welsh Ministers for the purposes of section 29

Legal privilege

31 Provision of information: exclusion on grounds of legal privilege

Enforcement

32 Enforcement of information requirements
33 Enforcement of information requirements: appeals

PART 5

LOCAL AUTHORITY POWERS AND DUTIES

34 Provision of bus services by local authorities: removal of restriction
35 Removal of duty to secure local bus services
36 Financial assistance in connection with local bus services

PART 6

MISCELLANEOUS AND GENERAL

Transfer of undertakings

37 Application of TUPE

Transport Act 1985: registration of services with traffic commissioner

38 Transport Act 1985: removal of requirements relating to registration
39 Transport Act 1985: existing registration etc. ceasing to have effect

Pŵer Gweinidogion Cymru i sicrhau bod gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr yn cael eu darparu

40 Cyfyngu ar y pŵer i sicrhau bod gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr yn cael eu darparu o dan adran 7 o Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006

Deddf Trafnidiaeth 2000: cynlluniau awdurdod lleol

41 Deddf Trafnidiaeth 2000: dileu cynlluniau awdurdod lleol penodol

Cyffredinol

42 Rheoliadau o dan y Ddeddf hon
43 Rhoi hysbysiadau etc.
44 Dehongli cyffredinol
45 Mynegai o dermau wedi eu diffinio
46 Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc.
47 Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol
48 Dod i rym
49 Enw byr

Atodlen - Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol etc.

Welsh Ministers' power to secure provision of public passenger transport services

40 Restriction on the power to secure the provision of public passenger transport services under section 7 of the Transport (Wales) Act 2006

Transport Act 2000: local authority schemes

41 Transport Act 2000: removal of certain local authority schemes

General

42 Regulations under this Act
43 Giving notices etc.
44 General interpretation
45 Index of defined terms
46 Power to make consequential, transitional etc. provision
47 Minor and consequential amendments
48 Coming into force
49 Short title

Schedule – Minor and consequential amendments etc.

Deddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026

Deddf gan Senedd Cymru i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â rheoleiddio a darparu gwasanaethau bysiau lleol yng Nghymru; ac at ddibenion cysylltiedig. [2 Chwefror 2026]

Gan ei fod wedi ei basio gan Senedd Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Fawrhydi, deddfir fel a ganlyn:

RHAN 1

CYSYNIADAU ALLWEDDOL AC AMCANION CYFFREDINOL

Cysyniadau allweddol

1 Ystyr "gwasanaeth bysiau lleol"

(1) At ddibenion y Ddeddf hon, gwasanaeth yw gwasanaeth bysiau lleol ar gyfer cludo teithwyr ar ffyrdd, am daliadau teithio ar wahân, gan ddefnyddio un neu ragor o gerbydau gwasanaeth cyhoeddus, sydd—

(a) yn bodloni'r amod yn is-adran (3), a

(b) ag un neu ragor o fannau esgyn neu fannau disgyn yng Nghymru.

(2) Ond nid yw cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at wasanaeth bysiau lleol yn cynnwys cyfeiriadau at—

(a) gwasanaeth adran 19 (gweler adran 44(1) ynghylch hynny);

(b) gwasanaeth Rhan 3 o Atodlen 1 (gweler adran 44(1) ynghylch hynny);

(c) gwibdaith neu gylchdaith;

(d) gwasanaeth yn lle trên.

(3) Mae gwasanaeth yn bodloni'r amod yn yr is-adran hon os, yn achos pob un o'i fannau esgyn—

(a) yw'r man disgyn nesaf o dan 15 milltir i ffwrdd (o fesur mewn llinell syth), a



Bus Services (Wales) Act 2026

An Act of Senedd Cymru to make provision in connection with the regulation and provision of local bus services in Wales; and for connected purposes. [2 February 2026]

Having been passed by Senedd Cymru and having received the assent of His Majesty, it is enacted as follows:

PART 1

KEY CONCEPTS AND GENERAL OBJECTIVES

Key concepts

1 Meaning of "local bus service"

(1) For the purposes of this Act, a local bus service is a service for the carriage of passengers by road at separate fares, using one or more public service vehicles, that—

(a) meets the condition in subsection (3), and

(b) has one or more embarkation or disembarkation points in Wales.

(2) But references in this Act to a local bus service do not include references to—

(a) a section 19 service (for which see section 44(1));

(b) a Part 3 of Schedule 1 service (for which see section 44(1));

(c) an excursion or tour;

(d) a rail replacement service.

(3) A service meets the condition in this subsection if, in the case of each of its embarkation points—

(a) the next disembarkation point is under 15 miles away (when measured in a straight line), and

(b) nad oes unrhyw fan ar y llwybr rhwng y man esgyn hwnnw a'r man disgyn hwnnw sydd 15 milltir i ffwrdd, neu'n fwy na 15 milltir i ffwrdd, o'r naill neu'r llall ohonynt (o fesur mewn llinell syth).

(4) At ddibenion yr adran hon—

(a) mae i "cerbyd gwasanaeth cyhoeddus" yr ystyr a roddir i "public service vehicle" yn adran 1 o Ddeddf 1981;

(b) mae i "gwibdaith neu gylchdaith" yr ystyr a roddir i "excursion or tour" yn adran 137(1) o Ddeddf 1985;

(c) gwasanaeth yw "gwasanaeth yn lle trên" ar gyfer cludo teithwyr, yn lle gwasanaeth rheilffyrdd i deithwyr sydd wedi ei atal dros dro neu sydd wedi ei derfynu.

(5) Pan fyddai rhan o wasanaeth anghymwys yn bodloni'r amod yn is-adran (3) pe bai'r rhan honno'n wasanaeth ynddo'i hun, mae'r rhan honno ei hun i'w thrin fel pe bai'n wasanaeth bysiau lleol at ddibenion y Ddeddf hon heblaw'r ddyletswydd yn adran 5(1)(a).

(6) At ddibenion is-adran (5) gwasanaeth yw "gwasanaeth anghymwys" (heblaw un o fewn is-adran (2)) ar gyfer cludo teithwyr ar ffyrdd am daliadau teithio ar wahân, gan ddefnyddio un neu ragor o gerbydau gwasanaeth cyhoeddus, y mae ganddo un neu ragor o fannau esgyn neu fannau disgyn yng Nghymru, ond nad yw'n bodloni'r amod yn is-adran (3).

(7) Mae is-adran (5)(b) ac (c) o adran 1 o Ddeddf 1981 (ystyr "fares") yn gymwys mewn perthynas â "taliadau teithio" at ddibenion yr adran hon fel y mae'n gymwys mewn perthynas â'r term Saesneg cyfatebol "fares".

2 Ystyr "man esgyn" a "man disgyn"

Yn y Ddeddf hon—

(a) mae cyfeiriadau at "man esgyn", mewn perthynas â gwasanaeth, yn gyfeiriadau at unrhyw fan ar ei lwybr y caniateir esgyn i'r gwasanaeth ynddo (pa un a ganiateir i deithwyr hefyd ddisgyn oddi ar y gwasanaeth yn y man hwnnw ai peidio);

(b) mae cyfeiriadau at "man disgyn", mewn perthynas â gwasanaeth, yn gyfeiriadau at unrhyw fan ar ei lwybr y caniateir disgyn oddi ar y gwasanaeth ynddo, ac eithrio yn achos argyfwng (pa un a ganiateir i deithwyr hefyd esgyn i'r gwasanaeth yn y man hwnnw ai peidio).

3 Ystyr "gwasanaeth bysiau lleol hyblyg" a "gwasanaeth bysiau lleol safonol"

Yn y Ddeddf hon—

(a) mae cyfeiriadau at "gwasanaeth bysiau lleol hyblyg" yn gyfeiriadau at wasanaeth bysiau lleol sydd, er gwaethaf bodolaeth unrhyw rannau cyfyngedig o'r llwybr sy'n sefydlog, mor hyblyg yng nghyfanrwydd ei weithrediad fel na fyddai'n ymarferol nodi ei lwybr at ddibenion Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru (gweler adran 5(1)(b));

(b) mae cyfeiriadau at "gwasanaeth bysiau lleol safonol" yn gyfeiriadau at wasanaeth bysiau lleol nad yw'n wasanaeth bysiau lleol hyblyg.

(b) there is no point on the route between that embarkation point and that disembarkation point that is 15 miles away, or more than 15 miles away, from either of them (when measured in a straight line).

(4) For the purposes of this section—

(a) "public service vehicle" has the meaning given in section 1 of the 1981 Act;

(b) "excursion or tour" has the meaning given in section 137(1) of the 1985 Act;

(c) a "rail replacement service" is a service for the carriage of passengers, as a substitute for a railway passenger service that is temporarily interrupted or that has been discontinued.

(5) Where a part of a non-qualifying service would meet the condition in subsection (3) if that part were a service in its own right, that part is itself to be treated as being a local bus service for the purposes of this Act other than the duty in section 5(1)(a).

(6) For the purposes of subsection (5) a "non-qualifying service" is a service (other than one within subsection (2)) for the carriage of passengers by road at separate fares, using one or more public service vehicles, which has one or more embarkation or disembarkation points in Wales, but which does not meet the condition in subsection (3).

(7) Subsection (5)(b) and (c) of section 1 of the 1981 Act (meaning of "fares") applies for the purposes of this section.

2 Meaning of "embarkation point" and "disembarkation point"

In this Act—

(a) references to an "embarkation point", in relation to a service, are to any point on its route at which embarkation onto the service is permitted (whether or not passengers are also permitted to disembark from the service at that point);

(b) references to a "disembarkation point", in relation to a service, are to any point on its route at which disembarkation from the service is permitted, otherwise than in the case of an emergency (whether or not passengers are also permitted to embark on the service at that point).

3 Meaning of "flexible local bus service" and "standard local bus service"

In this Act—

(a) references to a "flexible local bus service" are to a local bus service which, regardless of the existence of any limited fixed sections of route, is in the entirety of its operation so flexible that it would not be practicable to identify its route for the purposes of the Welsh Bus Network Plan (see section 5(1)(b));

(b) references to a "standard local bus service" are to a local bus service that is not a flexible local bus service.

Amcanion

4 Dyletswydd Gweinidogion Cymru i roi sylw i amcanion

(1) Wrth arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Ddeddf hon, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r amcanion a ganlyn.

(2) Yr amcan cyntaf yw hybu defnyddio gwasanaethau bysiau lleol.

(3) Yr ail amcan yw gwella'n barhaus ddibynadwyedd, diogelwch, fforddiadwyedd a hygyrchedd gwasanaethau bysiau lleol.

(4) Y trydydd amcan yw gweithio tuag at gynyddu argaeledd gwasanaethau bysiau lleol.

(5) Y pedwerydd amcan yw gweithio tuag at gyflawni system drafnidiaeth integredig.

(6) Y pumed amcan yw hwyluso siwrneiau teithwyr sy'n golygu defnyddio mwy nag un gwasanaeth bysiau lleol.

(7) Y chweched amcan yw lleihau allyriadau nwy tŷ gwydr a gwastraff o drafnidiaeth ffyrdd.

(8) Y seithfed amcan yw hwyluso mynediad gan deithwyr sy'n defnyddio gwasanaethau bysiau lleol i fannau lle y darperir addysg, hyfforddiant, gwasanaethau iechyd neu wasanaethau gofal cymdeithasol.

(9) Yr wythfed amcan yw gweithio tuag at ddileu neu leihau rhwystrau sy'n datgymell defnyddio gwasanaethau bysiau lleol.

(10) Yn yr adran hon—

(a) mae "addysg" yn cynnwys addysg uwch;

(b) mae i "nwy tŷ gwydr" yr un ystyr ag yn Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (dccc 3);

(c) ystyr "gwasanaethau iechyd" yw gwasanaethau a ddarperir o dan adran 3 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42) (gan gynnwys gwasanaethau yr ystyrir at ddibenion y ddyletswydd yn is-adran (1) o'r adran honno eu bod yn cael eu darparu o dan y ddyletswydd honno);

(d) ystyr "gwasanaethau gofal cymdeithasol" yw gwasanaethau a drinnir fel gwasanaethau rheoleiddiedig at ddibenion Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2).

RHAN 2

SWYDDOGAETHAU GWEINIDOGION CYMRU SY'N YMWNEUD Â GWASANAETHAU BYSIAU LLEOL

Dyletswyddau craidd Gweinidogion Cymru

5 Gwasanaethau bysiau lleol: dyletswyddau craidd

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) penderfynu ar y gwasanaethau bysiau lleol y maent yn ystyried eu bod yn ofynnol at ddiben sicrhau trafnidiaeth ddiogel, integredig, gynaliadwy, effeithlon ac economaidd yng Nghymru,

Objectives

4 Welsh Ministers' duty to have regard to objectives

(1) In exercising any function under this Act, the Welsh Ministers must have regard to the following objectives.

(2) The first objective is to promote the use of local bus services.

(3) The second objective is continuously to improve the reliability, safety, affordability and accessibility of local bus services.

(4) The third objective is to work towards increasing the availability of local bus services.

(5) The fourth objective is to work towards achieving an integrated transport system.

(6) The fifth objective is to facilitate passenger journeys that involve using more than one local bus service.

(7) The sixth objective is to reduce greenhouse gas emissions and waste from road transport.

(8) The seventh objective is to facilitate access by passengers using local bus services to places where education, training, health services or social care services are provided.

(9) The eighth objective is to work towards removing or reducing barriers that disincentivise the use of local bus services.

(10) In this section—

(a) "education" includes higher education;

(b) "greenhouse gas" has the same meaning as in Part 2 of the Environment (Wales) Act 2016 (anaw 3);

(c) "health services" means services provided under section 3 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (c. 42) (including services regarded for the purposes of the duty in subsection (1) of that section as being provided under that duty);

(d) "social care services" means services that are treated as being regulated services for the purposes of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (anaw 2).

PART 2

FUNCTIONS OF THE WELSH MINISTERS RELATING TO LOCAL BUS SERVICES

Core duties of the Welsh Ministers

5 Local bus services: core duties

(1) The Welsh Ministers must—

(a) determine the local bus services that they consider are required for the purpose of securing safe, integrated, sustainable, efficient and economic transport in Wales,

(b) cyhoeddi cynllun (i'w alw'n "Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru") yn nodi manylion allweddol y gwasanaethau bysiau lleol hynny, ac

(c) i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod y gwasanaethau bysiau lleol hynny yn cael eu darparu.

(2) At ddibenion is-adran (1)(b), manylion allweddol gwasanaeth yw—

(a) yn achos gwasanaeth bysiau lleol safonol, y llwybr a'r prif fannau esgyn a mannau disgyn y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn ofynnol at ddibenion darparu'r gwasanaeth hwnnw;

(b) yn achos gwasanaeth bysiau lleol hyblyg—

(i) yr ardal ddaearyddol y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn ofynnol i'r gwasanaeth hwnnw weithredu ynddi;

(ii) unrhyw rannau o'r llwybr y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn ofynnol iddynt fod yn sefydlog, at ddibenion darparu'r gwasanaeth hwnnw;

(iii) unrhyw fannau esgyn neu unrhyw fannau disgyn y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn ofynnol iddynt fod yn sefydlog, at ddibenion darparu'r gwasanaeth hwnnw.

(3) Am ddarpariaeth bellach sy'n ymwneud â Chynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru, gweler adrannau 6 i 8.

(4) Am eithriad i'r ddyletswydd yn is-adran (1)(c) yn achos gwasanaethau trawsffiniol, gweler adran 20 (gwasanaethau trawsffiniol a'r ddyletswydd i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu).

(5) Pan fo'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod gwasanaeth bysiau lleol yn cael ei ddarparu, cânt sicrhau'r gwasanaeth hwnnw drwy wneud unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) ymrwymo i gontract gwasanaeth bysiau lleol mewn perthynas â gwasanaeth bysiau lleol o dan adran 10;

(b) rhoi trwydded mewn perthynas â gwasanaeth bysiau lleol o dan adran 12;

(c) darparu gwasanaeth bysiau lleol o dan adran 18;

(d) dibynnu ar wasanaeth a ddarperir fel y'i disgrifir yn adran 19.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn diwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol, osod gerbron Senedd Cymru ddatganiad ar baratoadau i adran 5(1)(c) ddod i rym.

(7) Rhaid i'r datganiad, yn benodol, fynd i'r afael â pharatoadau mewn perthynas â chapasiti sefydliadol.

Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru

6 Llunio Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru

(1) Cyn cyhoeddi Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru o dan adran 5(1)(b), rhaid i Weinidogion Cymru lunio drafft o'r Cynllun.

(b) publish a plan (to be known as the "Welsh Bus Network Plan") setting out the key particulars of those local bus services, and

(c) so far as reasonably practicable, secure the provision of those local bus services.

(2) For the purposes of subsection (1)(b), the key particulars of a service are—

(a) in the case of a standard local bus service, the route and principal embarkation and disembarkation points that the Welsh Ministers consider are required for the purposes of the provision of that service;

(b) in the case of a flexible local bus service—

(i) the geographical area in which the Welsh Ministers consider that service is required to operate;

(ii) any fixed sections of route that the Welsh Ministers consider to be required for the purposes of the provision of that service;

(iii) any fixed embarkation or disembarkation points that the Welsh Ministers consider to be required for the purposes of the provision of that service.

(3) For further provision relating to the Welsh Bus Network Plan, see sections 6 to 8.

(4) For an exception to the duty in subsection (1)(c) in the case of cross-border services, see section 20 (cross-border services and the duty to secure the provision of services).

(5) Where the Welsh Ministers are required by this section to secure the provision of a local bus service, they may secure that service by doing any one or more of the following—

(a) entering into a local bus service contract in respect of a local bus service under section 10;

(b) granting a permit in respect of a local bus service under section 12;

(c) providing a local bus service under section 18;

(d) relying on the provision of a service as described in section 19.

(6) The Welsh Ministers must, before the end of the period of 12 months beginning on the day after the day on which this Act receives Royal Assent, lay before Senedd Cymru a statement on preparations for the coming into force of section 5(1)(c).

(7) The statement must, in particular, address preparations in relation to organisational capacity.

Welsh Bus Network Plan

6 Preparation of Welsh Bus Network Plan

(1) Before publishing the Welsh Bus Network Plan under section 5(1)(b), the Welsh Ministers must prepare a draft of the Plan.

(2) Wrth lunio'r drafft o Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru, rhaid i Weinidogion Cymru geisio barn pob awdurdod lleol.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd, wrth lunio'r drafft o Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru, roi sylw i bob un o'r canlynol—

(a) Strategaeth Drafnidiaeth Cymru;

(b) pob cynllun trafnidiaeth rhanbarthol sy'n cael effaith o dan adran 109A o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (p. 38);

(c) swyddogaethau awdurdodau lleol o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (mccc 2)

(4) Ar ôl llunio'r drafft o Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru, rhaid i Weinidogion Cymru, cyn cyhoeddi'r Cynllun, ymgynghori â phob un o'r personau a ganlyn ar y drafft—

(a) pob awdurdod lleol;

(b) pob cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir drwy reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1);

(c) yr awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer pob Parc Cenedlaethol yng Nghymru;

(d) unrhyw bersonau y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau gweithredwyr gwasanaethau bysiau lleol y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol;

(e) unrhyw bersonau y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau cyflogeion gweithredwyr gwasanaethau bysiau lleol y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol;

(f) unrhyw bersonau y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau personau sy'n defnyddio gwasanaethau bysiau lleol, neu sy'n debygol o ddefnyddio'r gwasanaethau hynny, y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol;

(g) unrhyw berson arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.

(5) Ar ôl ymgynghori â'r personau hynny ar y drafft o Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru, caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi'r Cynllun o dan adran 5(1)(b) naill ai yn nhermau'r drafft neu, os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gan roi sylw i unrhyw farn a fynegir yn ystod yr ymgynghoriad, mewn termau eraill.

(6) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyhoeddi Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru o dan adran 5(1)(b), rhaid i Weinidogion Cymru ei osod gerbron Senedd Cymru.

(7) Caniateir bodloni'r gofyniad a osodir gan is-adran (1) i lunio drafft o Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru drwy ddrafft a lunnir cyn i'r adran hon ddod i rym.

(8) Caniateir bodloni'r gofyniad a osodir gan is-adran (2) i Weinidogion Cymru geisio barn wrth lunio drafft o Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru drwy geisio barn cyn i'r adran hon ddod i rym.

(9) Caniateir bodloni'r gofyniad a osodir gan is-adran (4) i ymgynghori ar ddrafft o Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru drwy ymgynghoriad a gynhelir cyn i'r adran hon ddod i rym.

7 Adolygu a diwygio Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru yn barhaus.

(2) In preparing the draft of the Welsh Bus Network Plan, the Welsh Ministers must seek the views of every local authority.

(3) The Welsh Ministers must also, in preparing the draft of the Welsh Bus Network Plan, have regard to each of the following—

(a) the Wales Transport Strategy;

(b) each regional transport plan having effect under section 109A of the Transport Act 2000 (c. 38);

(c) the functions of local authorities under the Learner Travel (Wales) Measure 2008 (nawm 2).

(4) Having prepared the draft of the Welsh Bus Network Plan, the Welsh Ministers must, before publishing the Plan, consult each of the following persons on the draft—

(a) every local authority;

(b) each corporate joint committee established by regulations made under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 (asc 1);

(c) the National Park authority for each National Park in Wales;

(d) any persons appearing to the Welsh Ministers to represent the interests of operators of local bus services that the Welsh Ministers consider appropriate;

(e) any persons appearing to the Welsh Ministers to represent the interests of employees of operators of local bus services that the Welsh Ministers consider appropriate;

(f) any persons appearing to the Welsh Ministers to represent the interests of persons using or likely to use local bus services that the Welsh Ministers consider appropriate;

(g) any other person that the Welsh Ministers consider appropriate.

(5) Having consulted those persons on the draft of the Welsh Bus Network Plan, the Welsh Ministers may publish the Plan under section 5(1)(b) either in the terms of the draft or, if they consider it appropriate having regard to any views expressed in the course of the consultation, in other terms.

(6) As soon as practicable after publishing the Welsh Bus Network Plan under section 5(1)(b), the Welsh Ministers must lay it before Senedd Cymru.

(7) The requirement imposed by subsection (1) to prepare a draft of the Welsh Bus Network Plan may be satisfied by a draft prepared before the coming into force of this section.

(8) The requirement imposed by subsection (2) that the Welsh Ministers seek views in preparing a draft of the Welsh Bus Network Plan may be satisfied by seeking views before the coming into force of this section.

(9) The requirement imposed by subsection (4) to consult on a draft of the Welsh Bus Network Plan may be satisfied by consultation carried out before the coming into force of this section.

7 Review and revision of Welsh Bus Network Plan

(1) The Welsh Ministers must keep the Welsh Bus Network Plan under review.

(2) O ran Gweinidogion Cymru—

(a) rhaid iddynt wneud unrhyw ddiwygiad i Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru y maent yn ystyried ei fod yn ofynnol er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn parhau i nodi'r manylion allweddol y cyfeirir atynt yn adran 5(2);

(b) cânt wneud unrhyw ddiwygiad arall i Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru y maent yn ystyried ei fod yn briodol.

(3) Ond nid yw is-adran (2)(a) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddiwygio Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru er mwyn adlewyrchu unrhyw gamau a gymerir mewn perthynas â gwasanaeth bysiau lleol a fyddai (oni bai am yr is-adran hon) yn gwneud diwygio'r Cynllun yn ofynnol, os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried na fydd y cyfnod y bydd y camau hynny'n cael effaith yn fwy na 14 o ddiwrnodau.

(4) Wrth ystyried a ddylid diwygio Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru a natur unrhyw ddiwygiad, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i bob un o'r canlynol—

(a) Strategaeth Drafnidiaeth Cymru;

(b) os ydynt yn ystyried y gallai'r diwygiad arfaethedig effeithio ar unrhyw ran o ardal cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir drwy reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, cynllun trafnidiaeth rhanbarthol y pwyllgor hwnnw sy'n cael effaith o dan adran 109A o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (p. 38);

(c) swyddogaethau awdurdodau lleol o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (mccc 2).

(5) Ar ôl gwneud unrhyw ddiwygiad i Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru, rhaid i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol gyhoeddi Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru diwygiedig.

(6) Os yw Gweinidogion Cymru yn gwneud unrhyw ddiwygiad i Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru ar ôl y dyddiad diweddaraf y'i gosodwyd gerbron Senedd Cymru (naill ai o dan yr adran hon neu o dan adran 6) rhaid iddynt, o fewn y cyfnod o 13 mis sy'n dechrau â'r dyddiad y gosodwyd y Cynllun gerbron Senedd Cymru yn fwyaf diweddar, osod gerbron Senedd Cymru—

(a) copi pellach o Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru, a

(b) datganiad sy'n nodi'r gwahaniaethau rhwng y copi pellach hwnnw o'r Cynllun, a'r copi blaenorol o'r Cynllun a osodwyd gerbron Senedd Cymru.

(7) Mae adran 8 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch diwygiadau i Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru.

8 Darpariaeth bellach ynghylch diwygiadau i Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw ddiwygiad i Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei wneud ("diwygiad arfaethedig"), oni bai bod Gweinidogion Cymru yn ystyried—

(a) mai bychan yn unig fyddai effaith y diwygiad arfaethedig ar y ddarpariaeth o wasanaethau bysiau lleol, neu

(b) na fyddai'n rhesymol ymarferol cynnal ymgynghoriad ar y diwygiad arfaethedig fel y'i disgrifir yn is-adran (4).

(2) The Welsh Ministers—

(a) must make any revision to the Welsh Bus Network Plan that they consider is required to ensure that it continues to set out the key particulars referred to in section 5(2);

(b) may make any other revision to the Welsh Bus Network Plan that they consider appropriate.

(3) But subsection (2)(a) does not require the Welsh Ministers to revise the Welsh Bus Network Plan to reflect any steps taken in respect of a local bus service that would (but for this subsection) require revision to the Plan, if the Welsh Ministers consider that the period for which those steps will have effect will not exceed 14 days.

(4) In considering whether to revise the Welsh Bus Network Plan and the nature of any revision, the Welsh Ministers must have regard to each of the following—

(a) the Wales Transport Strategy;

(b) if they consider that the proposed revision may affect any part of the area of a corporate joint committee established by regulations made under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021, that committee's regional transport plan having effect under section 109A of the Transport Act 2000 (c. 38);

(c) the functions of local authorities under the Learner Travel (Wales) Measure 2008 (nawm 2).

(5) After making any revision to the Welsh Bus Network Plan, the Welsh Ministers must as soon as reasonably practicable publish the revised Welsh Bus Network Plan.

(6) If the Welsh Ministers make any revision to the Welsh Bus Network Plan after the most recent date on which it was laid before Senedd Cymru (either under this section or section 6) they must, within the period of 13 months beginning with the date on which the Plan was most recently laid before Senedd Cymru, lay before Senedd Cymru—

(a) a further copy of the Welsh Bus Network Plan, and

(b) a statement setting out the differences between that further copy of the Plan, and the preceding copy of the Plan laid before Senedd Cymru.

(7) Section 8 makes further provision about revisions to the Welsh Bus Network Plan.

8 Further provision about revisions to the Welsh Bus Network Plan

(1) This section applies in relation to any revision to the Welsh Bus Network Plan that the Welsh Ministers propose to make (a "proposed revision"), unless the Welsh Ministers consider—

(a) that the effect of the proposed revision on the provision of local bus services would be no more than minor, or

(b) that it would not be reasonably practicable to carry out consultation on the proposed revision as described in subsection (4).

(2) Cyn gwneud y diwygiad arfaethedig, rhaid i Weinidogion Cymru lunio drafft o Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru sy'n ymgorffori'r diwygiad arfaethedig (y "Cynllun drafft diwygiedig").

(3) Wrth lunio'r Cynllun drafft diwygiedig, rhaid i Weinidogion Cymru, os ydynt yn ystyried y gallai'r diwygiad arfaethedig effeithio ar unrhyw ran o ardal awdurdod lleol, geisio barn yr awdurdod hwnnw.

(4) Ar ôl llunio'r Cynllun drafft diwygiedig, rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gwneud y diwygiad arfaethedig i Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru, ymgynghori â phob un o'r personau a ganlyn ar y diwygiad arfaethedig—

(a) pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried y gallai'r diwygiad arfaethedig effeithio ar unrhyw ran o ardal awdurdod lleol, yr awdurdod hwnnw;

(b) pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried y gallai'r diwygiad arfaethedig effeithio ar unrhyw ran o ardal cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir drwy reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1), y pwyllgor hwnnw;

(c) pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried y gallai'r diwygiad arfaethedig effeithio ar unrhyw ran o ardal awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru, yr awdurdod hwnnw;

(d) unrhyw bersonau y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau gweithredwyr gwasanaethau bysiau lleol yr effeithir arnynt y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol;

(e) unrhyw bersonau y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau cyflogeion gweithredwyr gwasanaethau bysiau lleol yr effeithir arnynt y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol;

(f) unrhyw bersonau y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau personau sy'n defnyddio gwasanaethau bysiau lleol yr effeithir arnynt, neu sy'n debygol o ddefnyddio'r gwasanaethau hynny, y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol;

(g) unrhyw berson arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.

(5) At ddibenion yr ymgynghoriad hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu copi o'r Cynllun drafft diwygiedig i bob un o'r personau hynny.

(6) Ar ôl ymgynghori â'r personau hynny ar y diwygiad arfaethedig, caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru naill ai yn nhermau'r Cynllun drafft diwygiedig neu, os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gan roi sylw i unrhyw farn a fynegir yn ystod yr ymgynghoriad, mewn termau eraill.

(7) Yn yr adran hon, mae cyfeiriadau at "gwasanaethau bysiau lleol yr effeithir arnynt", mewn perthynas ag ymgynghori ar ddiwygiad arfaethedig, yn gyfeiriadau at wasanaethau bysiau lleol y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddai'r diwygiad arfaethedig yn effeithio arnynt.

9 Diwygio Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru: dyletswyddau awdurdod lleol

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan geisir barn awdurdod lleol o dan adran 8(3).

(2) Before making the proposed revision, the Welsh Ministers must prepare a draft of the Welsh Bus Network Plan incorporating the proposed revision (the "revised draft Plan").

(3) In preparing the revised draft Plan, the Welsh Ministers must, if they consider that the proposed revision may affect any part of the area of a local authority, seek the views of that authority.

(4) Having prepared the revised draft Plan, the Welsh Ministers must, before making the proposed revision to the Welsh Bus Network Plan, consult each of the following persons on the proposed revision—

(a) where the Welsh Ministers consider the proposed revision may affect any part of the area of a local authority, that authority;

(b) where the Welsh Ministers consider the proposed revision may affect any part of the area of a corporate joint committee established by regulations made under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 (asc 1), that committee;

(c) where the Welsh Ministers consider the proposed revision may affect any part of the area of a National Park authority for a National Park in Wales, that authority;

(d) any persons appearing to the Welsh Ministers to represent the interests of operators of affected local bus services that the Welsh Ministers consider appropriate;

(e) any persons appearing to the Welsh Ministers to represent the interests of employees of operators of affected local bus services that the Welsh Ministers consider appropriate;

(f) any persons appearing to the Welsh Ministers to represent the interests of persons using or likely to use affected local bus services that the Welsh Ministers consider appropriate;

(g) any other person that the Welsh Ministers consider appropriate.

(5) For the purposes of that consultation, the Welsh Ministers must provide each of those persons with a copy of the revised draft Plan.

(6) Having consulted those persons on the proposed revision, the Welsh Ministers may revise the Welsh Bus Network Plan either in the terms of the revised draft Plan or, if they consider it appropriate having regard to any views expressed in the course of the consultation, in other terms.

(7) In this section, references to "affected local bus services", in relation to consultation on a proposed revision, are to local bus services that the Welsh Ministers consider would be affected by the proposed revision.

9 Revision of Welsh Bus Network Plan: local authority duties

(1) This section applies where the views of a local authority are sought under section 8(3).

(2) Wrth roi ei farn, rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i anghenion personau yn ei ardal y mae'n ystyried eu bod yn defnyddio gwasanaethau bysiau lleol, neu'n debygol o ddefnyddio gwasanaethau bysiau lleol, y mae'r diwygiad arfaethedig yn effeithio arnynt, gan gynnwys yn benodol eu hanghenion mewn perthynas â hygyrchedd gwasanaethau bysiau lleol; a rhaid iddo ystyried a ddylai, at y diben hwn, gynnal ymgynghoriad â phersonau yn ei ardal ynghylch y diwygiad arfaethedig.

Contractau gwasanaeth bysiau lleol

10 Contractau gwasanaeth bysiau lleol

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, at ddibenion cyflawni eu dyletswydd o dan adran 5(1)(c) mewn perthynas â gwasanaeth bysiau lleol, ymrwymo i gytundeb o dan yr adran hon (y cyfeirir ato yn y Ddeddf hon fel "contract gwasanaeth bysiau lleol") mewn perthynas â gwasanaeth.

(2) Contract yw contract gwasanaeth bysiau lleol, mewn perthynas â gwasanaeth bysiau lleol, sy'n nodi telerau—

(a) y mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r hawl i berson o fewn is-adran (3) i weithredu'r gwasanaeth yn unol â hwy, a

(b) y mae'r person hwnnw'n ymrwymo i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â hwy.

(3) Y personau o fewn yr is-adran hon yw—

(a) person sy'n ddeiliad trwydded bysiau cymunedol;

(b) person sy'n ddeiliad trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus.

(4) Yn achos contract gwasanaeth bysiau lleol yr ymrwymir iddo â pherson o fewn is-adran (3)(a) mewn perthynas â gwasanaeth sy'n wasanaeth bysiau cymunedol, rhaid i'r telerau a bennir yn y contract ei gwneud yn ofynnol—

(a) i'r gwasanaeth o dan sylw gael ei ddarparu fel gwasanaeth bysiau cymunedol, a

(b) i bob cerbyd a ddefnyddir wrth ddarparu'r gwasanaeth gael ei ddefnyddio felly o dan drwydded bysiau cymunedol ac yn unol â thelerau trwydded bysiau cymunedol.

(5) Nid yw'r cyfeiriad yn is-adran (3)(b) at drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys—

(a) trwydded y mae amod ynghlwm wrthi o dan adran 26(1A) o Ddeddf 1985 (pŵer comisiynydd traffig i roi amodau ynghlwm wrth drwyddedau) sy'n gwahardd y deiliad rhag defnyddio cerbydau o dan y drwydded i ddarparu gwasanaethau bysiau lleol o bob disgrifiad, neu o ddisgrifiad a bennir yn yr amod;

(b) trwydded sydd wedi ei hatal dros dro o dan adran 17(2) o Ddeddf 1981 neu adran 28(2) o Ddeddf 1985.

11 Pŵer i wneud darpariaeth atodol ynghylch contractau gwasanaeth bysiau lleol

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch telerau y mae rhaid eu cynnwys mewn contract gwasanaeth bysiau lleol.

(2) Caiff y ddarpariaeth honno ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r materion a ganlyn (ymhlith materion eraill)—

(2) The local authority must, in giving its views, have regard to the needs of persons in its area who it considers use, or are likely to use, local bus services affected by the proposed revision, including in particular their needs relating to the accessibility of local bus services; and must consider whether for this purpose it should carry out consultation with persons in its area on the proposed revision.

Local bus service contracts

10 Local bus service contracts

(1) The Welsh Ministers may, for the purposes of fulfilling their duty under section 5(1)(c) in respect of a local bus service, enter into an agreement under this section (referred to in this Act as a "local bus service contract") in respect of a service.

(2) A local bus service contract is a contract, in respect of a local bus service, setting out terms on which—

(a) the Welsh Ministers grant to a person within subsection (3) the right to operate the service, and

(b) that person undertakes to provide the service.

(3) The persons within this subsection are—

(a) a person who is the holder of a community bus permit;

(b) a person who is the holder of a PSV operator's licence.

(4) In the case of a local bus service contract entered into with a person within subsection (3)(a) in respect of a service that is a community bus service, the terms specified in the contract must require that—

(a) the service in question is provided as a community bus service, and

(b) each vehicle used in providing the service is so used under and in accordance with the terms of a community bus permit.

(5) The reference in subsection (3)(b) to a PSV operator's licence does not include—

(a) a licence to which a condition is attached under section 26(1A) of the 1985 Act (power of traffic commissioner to attach conditions to licences) prohibiting the holder from using vehicles under the licence to provide local bus services of all descriptions, or of a description specified in the condition;

(b) a licence that has been suspended under section 17(2) of the 1981 Act or section 28(2) of the 1985 Act.

11 Power to make supplementary provision about local bus service contracts

(1) Regulations may make provision about terms that must be included in a local bus service contract.

(2) That provision may relate to any of the following matters (among others)—

(a) prydlondeb, dibynadwyedd a diogelwch;

(b) amlder ac amseru;

(c) llwybrau ac ardaloedd gweithredu;

(d) trefniadau ar gyfer penderfynu pryd y caiff teithwyr eu codi neu eu gollwng;

(e) mannau esgyn a mannau disgyn;

(f) archebu siwrneiau;

(g) cadw cofnodion;

(h) cerbydau (gan gynnwys cyfleusterau sydd i'w darparu a gwybodaeth sydd i'w harddangos ar gerbydau), allyriadau cerbydau, a mathau o danwydd neu bŵer;

(i) cysylltiadau â gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr ac â gwasanaethau adran 19;

(j) siwrneiau teithwyr sy'n golygu teithio ar fwy nag un gwasanaeth bysiau lleol, neu deithio ar wasanaeth bysiau lleol a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr neu wasanaethau adran 19;

(k) tocynnu, taliadau teithio, a sut y caniateir dangos tystiolaeth o hawl i deithio;

(l) addysg a hyfforddiant;

(m) rhyngweithio â chwsmeriaid, gan gynnwys mewn cysylltiad ag adborth gan gwsmeriaid, a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion a digwyddiadau;

(n) cydymffurfiaeth â gofynion statudol;

(o) cymhellion ar gyfer gwella ansawdd gwasanaeth;

(p) cyfleusterau ac amwynderau sydd i'w darparu i unrhyw berson;

(q) taliadau i unrhyw berson.

(3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1)—

(a) nodi ffurf safonol ar gyfer telerau y mae rhaid eu cynnwys mewn contract gwasanaeth bysiau lleol;

(b) rhagnodi amgylchiadau pan ganiateir defnyddio'r ffurf safonol honno neu pan fo rhaid ei defnyddio mewn contract gwasanaeth bysiau lleol.

Trwyddedau gwasanaeth bysiau lleol

12 Trwyddedau gwasanaeth bysiau lleol

(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y gofynion yn is-adran (3) wedi eu bodloni, cânt (pa un ai at ddibenion cyflawni eu dyletswydd o dan adran 5(1)(c) mewn perthynas â gwasanaeth bysiau lleol, neu fel arall) roi trwydded o dan yr adran hon i berson o fewn is-adran (4).

(2) Trwydded yw trwydded a roddir o dan yr adran hon (y cyfeirir ati yn y Ddeddf hon fel "trwydded gwasanaeth bysiau lleol"), mewn perthynas â gwasanaeth bysiau lleol, y mae'r person y rhoddir y drwydded iddo wedi ei awdurdodi oddi tani i ddarparu'r gwasanaeth yn ystod y cyfnod y mae'r drwydded yn cael effaith.

(3) Y gofynion yw na fyddai caniatáu'r drwydded—

(a) punctuality, reliability and safety;

(b) frequency and timing;

(c) routes and areas of operation;

(d) arrangements for determining when passengers are taken up or set down;

(e) embarkation points and disembarkation points;

(f) booking journeys;

(g) record keeping;

(h) vehicles (including facilities to be made available and information to be displayed on vehicles), vehicle emissions, and types of fuel or power;

(i) connections to public passenger transport services and to section 19 services;

(j) passenger journeys involving travel on more than one local bus service, or travel on both a local bus service and public passenger transport services or section 19 services;

(k) ticketing, fares, and how entitlement to travel may be evidenced;

(l) education and training;

(m) interaction with customers, including in connection with customer feedback, and procedures for dealing with complaints and incidents;

(n) compliance with statutory requirements;

(o) incentives for improving the quality of a service;

(p) facilities and amenities to be made available to any person;

(q) payments to any person.

(3) Regulations under subsection (1) may—

(a) set out a standard form for terms that must be included in a local bus service contract;

(b) prescribe circumstances in which that standard form may or must be used in a local bus service contract.

Local bus service permits

12 Local bus service permits

(1) If the Welsh Ministers consider that the requirements in subsection (3) are met, they may (whether for the purposes of fulfilling their duty under section 5(1)(c) in respect of a local bus service, or otherwise) grant a permit under this section to a person within subsection (4).

(2) A permit granted under this section (referred to in this Act as a "local bus service permit") is a permit, in respect of a local bus service, under which the person to whom the permit is granted is authorised to provide the service during the period for which the permit has effect.

(3) The requirements are that granting the permit—

(a) yn cael effaith andwyol sylweddol ar wasanaeth bysiau lleol a ddarperir o dan gontract gwasanaeth bysiau lleol, neu a ddarperir gan Weinidogion Cymru o dan adran 18;

(b) yn anghyson â'r polisïau a'r cynigion a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

(4) Y personau o fewn yr is-adran hon yw—

(a) person sy'n ddeiliad trwydded bysiau cymunedol;

(b) person sy'n ddeiliad trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus.

(5) Nid yw'r cyfeiriad yn is-adran (4)(b) at drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys—

(a) trwydded y mae amod ynghlwm wrthi o dan adran 26(1A) o Ddeddf 1985 (pŵer comisiynydd traffig i roi amodau ynghlwm wrth drwyddedau) sy'n gwahardd y deiliad rhag defnyddio cerbydau o dan y drwydded i ddarparu gwasanaethau bysiau lleol o bob disgrifiad, neu o ddisgrifiad a bennir yn yr amod;

(b) trwydded sydd wedi ei hatal dros dro o dan adran 17(2) o Ddeddf 1981 neu adran 28(2) o Ddeddf 1985.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru roi trwydded y mae amodau ynghlwm wrthi (am ddarpariaeth bellach ynghylch amodau gweler adran 14).

13 Cyfnod y mae trwydded gwasanaeth bysiau lleol yn cael effaith

(1) Rhaid i drwydded gwasanaeth bysiau lleol bennu'r cyfnod y mae'n cael effaith .

(2) Mae trwydded gwasanaeth bysiau lleol yn peidio â chael effaith—

(a) pan ddaw'r cyfnod a bennir o dan is-adran (1) i ben, neu

(b) os caiff ei dirymu o dan adran 16 cyn i'r cyfnod hwnnw ddod i ben.

(3) Nid yw trwydded gwasanaeth bysiau lleol sydd wedi ei hatal dros dro o dan adran 16 yn cael unrhyw effaith yn ystod unrhyw gyfnod y mae'r ataliad dros dro yn cael effaith .

14 Amodau sydd ynghlwm wrth drwyddedau gwasanaeth bysiau lleol

(1) Yn achos trwydded gwasanaeth bysiau lleol a roddir i berson o fewn adran 12(4)(a) mewn perthynas â gwasanaeth sy'n wasanaeth bysiau cymunedol, rhaid i Weinidogion Cymru roi amod ynghlwm wrth y drwydded sy'n ei gwneud yn ofynnol—

(a) i'r gwasanaeth o dan sylw gael ei ddarparu fel gwasanaeth bysiau cymunedol, a

(b) i bob cerbyd a ddefnyddir wrth ddarparu'r gwasanaeth gael ei ddefnyddio felly o dan drwydded bysiau cymunedol ac yn unol â thelerau trwydded bysiau cymunedol.

(2) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch amodau pellach y mae rhaid eu rhoi ynghlwm wrth drwydded gwasanaeth bysiau lleol.

(3) Caiff y ddarpariaeth honno ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r materion a ganlyn (ymhlith materion eraill)—

(a) prydlondeb, dibynadwyedd a diogelwch;

(b) amlder ac amseru;

(c) llwybrau ac ardaloedd gweithredu;

(a) would not have a material adverse impact on a local bus service provided under a local bus service contract, or provided by the Welsh Ministers under section 18;

(b) would not be inconsistent with the policies and proposals set out in the Wales Transport Strategy.

(4) The persons within this subsection are—

(a) a person who is the holder of a community bus permit;

(b) a person who is the holder of a PSV operator's licence.

(5) The reference in subsection (4)(b) to a PSV operator's licence does not include—

(a) a licence to which a condition is attached under section 26(1A) of the 1985 Act (power of traffic commissioner to attach conditions to licences) prohibiting the holder from using vehicles under the licence to provide local bus services of all descriptions, or of a description specified in the condition;

(b) a licence that has been suspended under section 17(2) of the 1981 Act or section 28(2) of the 1985 Act.

(6) The Welsh Ministers may grant a permit to which conditions are attached (for further provision about conditions see section 14).

13 Period for which local bus service permit has effect

(1) A local bus service permit must specify the period for which it has effect.

(2) A local bus service permit ceases to have effect—

(a) with the expiry of the period specified under subsection (1), or

(b) on its revocation under section 16 before the expiry of that period.

(3) A local bus service permit that has been suspended under section 16 has no effect during any period for which the suspension has effect.

14 Conditions attached to local bus service permits

(1) In the case of a local bus service permit granted to a person within section 12(4)(a) in respect of a service that is a community bus service, the Welsh Ministers must attach a condition to the permit requiring that—

(a) the service in question is provided as a community bus service, and

(b) each vehicle used in providing the service is so used under and in accordance with the terms of a community bus permit.

(2) Regulations may make provision about further conditions that must be attached to a local bus service permit.

(3) That provision may relate to any of the following matters (among others)—

(a) punctuality, reliability and safety;

(b) frequency and timing;

(c) routes and areas of operation;

(d) trefniadau ar gyfer penderfynu pryd y caiff teithwyr eu codi neu eu gollwng;

(e) mannau esgyn a mannau disgyn;

(f) archebu siwrneiau;

(g) cadw cofnodion;

(h) cerbydau (gan gynnwys cyfleusterau sydd i'w darparu a gwybodaeth sydd i'w harddangos ar gerbydau), allyriadau cerbydau, a mathau o danwydd neu bŵer;

(i) cysylltiadau â gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr ac â gwasanaethau adran 19;

(j) siwrneiau teithwyr sy'n golygu teithio ar fwy nag un gwasanaeth bysiau lleol, neu deithio ar wasanaeth bysiau lleol a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr neu wasanaethau adran 19;

(k) tocynnu, taliadau teithio, a sut y caniateir dangos tystiolaeth o hawl i deithio;

(l) addysg a hyfforddiant;

(m) rhyngweithio â chwsmeriaid, gan gynnwys mewn cysylltiad ag adborth gan gwsmeriaid, a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion a digwyddiadau;

(n) cydymffurfiaeth â gofynion statudol;

(o) cymhellion ar gyfer gwella ansawdd gwasanaeth;

(p) cyfleusterau ac amwynderau sydd i'w darparu i unrhyw berson;

(q) taliadau i unrhyw berson.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl i drwydded gwasanaeth bysiau lleol gael ei rhoi, ddileu amod sydd ynghlwm wrth y drwydded drwy roi hysbysiad o hyn i ddeiliad y drwydded a chydag effaith o ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad.

(5) Os yw'r amod yn is-adran (6) neu (7) wedi ei fodloni, caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl i drwydded gwasanaeth bysiau lleol gael ei rhoi, drwy roi hysbysiad o hyn i ddeiliad y drwydded a chydag effaith o ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad, amrywio'r drwydded drwy—

(a) diwygio amod sydd ynghlwm wrth y drwydded;

(b) rhoi amod newydd ynghlwm wrth y drwydded.

(6) Yr amod yw bod yr amrywiad yn cael ei wneud o ganlyniad i ddarpariaeth a wneir o dan is-adran (2).

(7) Yr amod yw bod deiliad y drwydded wedi cytuno—

(a) â'r amrywiad i'r drwydded fel y'i nodir yn yr hysbysiad, a

(b) â'r dyddiad a bennir yn yr hysbysiad fel y dyddiad y mae'r amrywiad i gymryd effaith ohono.

(8) Caniateir i'r dyddiad a bennir mewn hysbysiad a roddir o dan is-adran (4) neu (5) fod naill ai'r dyddiad y rhoddir yr hysbysiad arno, neu ddyddiad ar ôl hynny.

15 Ceisiadau am drwyddedau gwasanaeth bysiau lleol

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch ceisiadau am drwyddedau gwasanaeth bysiau lleol.

(d) arrangements for determining when passengers are taken up or set down;

(e) embarkation points and disembarkation points;

(f) booking journeys;

(g) record keeping;

(h) vehicles (including facilities to be made available and information to be displayed on vehicles), vehicle emissions, and types of fuel or power;

(i) connections to public passenger transport services and to section 19 services;

(j) passenger journeys involving travel on more than one local bus service, or travel on both a local bus service and public passenger transport services or section 19 services;

(k) ticketing, fares, and how entitlement to travel may be evidenced;

(l) education and training;

(m) interaction with customers, including in connection with customer feedback, and procedures for dealing with complaints and incidents;

(n) compliance with statutory requirements;

(o) incentives for improving the quality of a service;

(p) facilities and amenities to be made available to any person;

(q) payments to any person.

(4) The Welsh Ministers may, after a local bus service permit has been granted, remove a condition attached to the permit by giving notice of this to the permit holder and with effect from a date specified in the notice.

(5) If the condition in subsection (6) or (7) is met, the Welsh Ministers may, after a local bus service permit has been granted, by giving notice of this to the permit holder and with effect from a date specified in the notice, vary the permit by—

(a) revising a condition attached to the permit;

(b) attaching a new condition to the permit.

(6) The condition is that the variation is made in consequence of provision made under subsection (2).

(7) The condition is that the permit holder has agreed to—

(a) the variation of the permit as set out in the notice, and

(b) the date specified in the notice as the date from which the variation is to take effect.

(8) The date specified in a notice given under subsection (4) or (5) may be either the date on which the notice is given, or a subsequent date.

15 Applications for local bus service permits

(1) Regulations may make provision about applications for local bus service permits.

(2) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon, ymhlith pethau eraill, wneud darpariaeth ynghylch—

(a) ffurf a chynnwys cais;

(b) pryd a sut y mae cais i'w wneud;

(c) ffioedd sy'n daladwy mewn cysylltiad â chais.

(3) Os yw Gweinidogion Cymru yn gwrthod cais am drwydded gwasanaeth bysiau lleol, rhaid iddynt roi hysbysiad o'u rhesymau i'r ceisydd.

16 Dirymu trwyddedau gwasanaeth bysiau lleol a'u hatal dros dro

(1) Caiff Gweinidogion Cymru ddirymu trwydded gwasanaeth bysiau lleol neu ei hatal dros dro drwy roi hysbysiad i'r perwyl hwn i'r person y rhoddwyd y drwydded iddo ("deiliad y drwydded").

(2) Rhaid i'r hysbysiad bennu—

(a) y sail y caiff y drwydded ei dirymu neu ei hatal dros dro arni;

(b) pryd y mae'r diddymiad neu'r ataliad dros dro yn cymryd effaith;

(c) yn achos atal trwydded dros dro, y cyfnod y mae'r ataliad dros dro yn cael effaith (y "cyfnod atal dros dro"), a'r amodau y mae angen cydymffurfio â hwy cyn i'r cyfnod hwnnw ddod i ben.

(3) Y seiliau y caniateir i drwydded gwasanaeth bysiau lleol gael ei dirymu neu ei hatal dros dro arnynt yw—

(a) y bu methiant i gydymffurfio ag amod sydd ynghlwm wrth y drwydded;

(b) y byddai parhau i ddarparu'r gwasanaeth a bennir yn y drwydded yn peryglu aelodau'r cyhoedd;

(c) yn achos trwydded y mae amod wedi ei roi ynghlwm wrthi o dan adran 14(1)—

(i) nad yw deiliad y drwydded ar hyn o bryd yn dal unrhyw drwyddedau bysiau cymunedol, neu

(ii) ers i'r drwydded gael ei rhoi, fod trwydded bysiau cymunedol a ddelir gan ddeiliad y drwydded wedi ei dirymu o dan adran 23(6) o Ddeddf 1985 (pa un a yw deiliad y drwydded yn parhau i ddal trwyddedau bysiau cymunedol eraill ai peidio);

(d) yn achos trwydded nad oes amod wedi ei roi ynghlwm wrthi o dan adran 14(1)—

(i) nad yw deiliad y drwydded ar hyn o bryd yn dal unrhyw drwyddedau gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus,

(ii) ers i'r drwydded gael ei rhoi, fod trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus a ddelir gan ddeiliad y drwydded wedi ei hatal dros dro o dan adran 17(2) o Ddeddf 1981 (pa un a yw deiliad y drwydded yn parhau i ddal trwyddedau gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus eraill ai peidio),

(iii) ers i'r drwydded gael ei rhoi, fod trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus a ddelir gan ddeiliad y drwydded wedi ei dirymu o dan adran 17(1) neu (2) o Ddeddf 1981 (pa un a yw deiliad y drwydded yn parhau i ddal trwyddedau gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus eraill ai peidio), neu

(2) Regulations under this section may, among other things, make provision about—

(a) the form and content of an application;

(b) when and how an application is to be made;

(c) fees payable in connection with an application.

(3) If the Welsh Ministers refuse an application for a local bus service permit they must give notice of their reasons to the applicant.

16 Revocation and suspension of local bus service permits

(1) The Welsh Ministers may revoke or suspend a local bus service permit by giving notice to this effect to the person to whom the permit has been granted (the "permit holder").

(2) The notice must specify—

(a) the ground on which the permit is revoked or suspended;

(b) when the revocation or suspension takes effect;

(c) in the case of the suspension of a permit, the period for which the suspension has effect (the "period of suspension"), and the conditions to be complied with before the expiry of that period.

(3) The grounds on which a local bus service permit may be revoked or suspended are—

(a) that there has been a failure to comply with a condition attached to the permit;

(b) that the continued provision of the service specified in the permit would endanger members of the public;

(c) in the case of a permit to which a condition has been attached under section 14(1)—

(i) that the permit holder now holds no community bus permits, or

(iii) that, since the grant of the permit, a community bus permit held by the permit holder has been revoked under section 23(6) of the 1985 Act (whether or not the permit holder continues to hold other community bus permits);

(d) in the case of a permit to which a condition has not been attached under section 14(1)—

(i) that the permit holder now holds no PSV operator's licences,

(ii) that, since the grant of the permit, a PSV operator's licence held by the permit holder has been suspended under section 17(2) of the 1981 Act (whether or not the permit holder continues to hold other PSV operator's licences),

(iii) that, since the grant of the permit, a PSV operator's licence held by the permit holder has been revoked under section 17(1) or (2) of the 1981 Act (whether or not the permit holder continues to hold other PSV operator's licences), or

(iv) ers i'r drwydded gael ei rhoi, fod amod wedi ei roi ynghlwm wrth drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus a ddelir gan ddeiliad y drwydded, o dan adran 26(1A) o Ddeddf 1985, sy'n gwahardd deiliad y drwydded rhag defnyddio cerbydau o dan y drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau bysiau lleol o bob disgrifiad, neu o ddisgrifiad a bennir yn yr amod (pa un a yw deiliad y drwydded yn parhau i ddal trwyddedau gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus eraill nad oes unrhyw amod o'r fath wedi ei roi ynghlwm wrthynt ai peidio);

(e) bod y cyfnod atal dros dro a bennir mewn hysbysiad a roddir o dan is-adran (1) mewn perthynas â'r drwydded wedi dod i ben heb gydymffurfiaeth â'r amodau a bennir o dan is-adran (2)(c).

(4) Yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan is-adran (5)(b), caiff hysbysiad a roddir o dan is-adran (1) bennu o dan is-adran (2)(b) fod y dirymiad trwydded neu'r ataliad dros dro yn cymryd effaith naill ai ar y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad, neu ar ddyddiad ar ôl hynny.

(5) Caiff rheoliadau—

(a) addasu is-adran (3);

(b) gwneud darpariaeth ynghylch pryd y mae dirymiad trwydded gwasanaeth bysiau lleol neu ataliad dros dro yn cymryd effaith.

17 Trwyddedau gwasanaeth bysiau lleol: apelau

(1) Caiff person y mae ei gais am drwydded gwasanaeth bysiau lleol yn cael ei wrthod apelio yn erbyn y gwrthodiad.

(2) Caiff person y rhoddwyd iddo drwydded gwasanaeth bysiau lleol apelio yn erbyn unrhyw amod sydd ynghlwm wrth y drwydded (gan gynnwys yn erbyn diwygiad i amod).

(3) Caiff person y rhoddwyd iddo drwydded gwasanaeth bysiau lleol sy'n cael ei dirymu apelio yn erbyn dirymu'r drwydded.

(4) Caiff person y rhoddwyd iddo drwydded gwasanaeth bysiau lleol sy'n cael ei hatal dros dro apelio yn erbyn—

(a) yr ataliad dros dro;

(b) y cyfnod a bennir o dan adran 16(2)(c);

(c) yr amodau a bennir o dan adran 16(2)(c).

(5) Mae apêl i'w dwyn gerbron y Tribiwnlys Haen Gyntaf.

(6) Ar apêl, caiff y Tribiwnlys Haen Gyntaf—

(a) cadarnhau'r penderfyniad y dygir yr apêl mewn perthynas ag ef,

(b) diddymu'r penderfyniad, neu

(c) rhoi penderfyniad arall yn lle'r penderfyniad y dygir yr apêl mewn perthynas ag ef.

(7) Yn is-adran (2), nid yw cyfeiriadau at amodau yn cynnwys cyfeiriad at amod sydd wedi ei roi ynghlwm wrth drwydded gwasanaeth bysiau lleol yn unol ag adran 14(1).

(iv) that, since the grant of the permit, a condition has been attached to a PSV operator's licence held by the permit holder, under section 26(1A) of the 1985 Act, prohibiting the permit holder from using vehicles under the licence to provide local bus services of all descriptions, or of a description specified in the condition (whether or not the permit holder continues to hold other PSV operator's licences to which no such condition has been attached);

(e) that the period of suspension specified in a notice given under subsection (1) in respect of the permit has expired without the conditions specified under subsection (2)(c) having been complied with.

(4) Subject to any provision made under subsection (5)(b), notice given under subsection (1) may specify under subsection (2)(b) that the revocation or suspension of a permit takes effect either on the date on which the notice is given, or on a subsequent date.

(5) Regulations—

(a) may modify subsection (3);

(b) may make provision about when the revocation or suspension of a local bus service permit takes effect.

17 Local bus service permits: appeals

(1) A person whose application for a local bus service permit is refused may appeal against the refusal.

(2) A person who has been granted a local bus service permit may appeal against any condition attached to the permit (including against revision of a condition).

(3) A person who has been granted a local bus service permit that is revoked may appeal against the revocation of the permit.

(4) A person who has been granted a local bus service permit that is suspended may appeal against—

(a) the suspension;

(b) the period specified under section 16(2)(c);

(c) the conditions specified under section 16(2)(c).

(5) An appeal is to be made to the First Tier Tribunal.

(6) On an appeal the First Tier Tribunal may—

(a) uphold the decision in respect of which the appeal is brought,

(b) quash the decision, or

(c) substitute another decision for the decision in respect of which the appeal is brought.

(7) In subsection (2), references to conditions do not include a reference to a condition attached to a local bus service permit in accordance with section 14(1).

Gwasanaethau bysiau lleol a ddarperir gan Weinidogion Cymru

18 Gweinidogion Cymru yn darparu gwasanaethau bysiau lleol

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, at ddibenion cyflawni eu dyletswydd o dan adran 5(1)(c) mewn perthynas â gwasanaeth bysiau lleol, ddarparu gwasanaeth bysiau lleol os ydynt wedi eu bodloni y byddai gwneud hynny yn ffordd fwy effeithiol o gyflawni'r ddyletswydd honno nag ymrwymo i gontract gwasanaeth bysiau lleol o dan adran 10 mewn perthynas â'r gwasanaeth.

(2) Nid yw is-adran (1) yn gymwys i wasanaeth bysiau lleol sy'n wasanaeth bysiau cymunedol.

Dibynnu ar wasanaethau penodol

19 Dibynnu ar wasanaethau bysiau cymunedol a gwasanaethau eraill penodol at ddibenion dyletswydd adran 5(1)(c)

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, at ddibenion cyflawni eu dyletswydd o dan adran 5(1)(c) mewn perthynas â gwasanaeth bysiau lleol, ddibynnu ar wasanaeth o fewn is-adran (2) a ddarperir gan unrhyw berson (heb, yn achos gwasanaeth y mae'r pwerau yn adran 10 neu 12 ar gael mewn perthynas ag ef, ymrwymo i gontract gwasanaeth bysiau lleol na rhoi trwydded gwasanaeth bysiau lleol mewn perthynas â'r gwasanaeth).

(2) Y gwasanaethau o fewn yr is-adran hon yw—

(a) gwasanaeth bysiau lleol sy'n wasanaeth bysiau cymunedol;

(b) gwasanaeth bysiau lleol a ddarperir fel y'i disgrifir yn adran 46(1) o Ddeddf 1981 (teithwyr sy'n talu am deithio ar fysiau ysgol);

(c) gwasanaeth adran 19;

(d) gwasanaeth Rhan 3 o Atodlen 1.

Gwasanaethau trawsffiniol

20 Gwasanaethau trawsffiniol a'r ddyletswydd i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu

(1) At ddibenion yr adran hon—

(a) mae gwasanaeth bysiau lleol sy'n wasanaeth bysiau lleol safonol yn wasanaeth trawsffiniol os—

(i) yw llwybr y gwasanaeth wedi ei nodi yng Nghynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru, a

(ii) yw rhan o'r llwybr hwnnw yng Nghymru a rhan ohono yn Lloegr;

(b) mae gwasanaeth bysiau lleol sy'n wasanaeth bysiau lleol hyblyg yn wasanaeth trawsffiniol os—

(i) yw ardal weithredu ddaearyddol y gwasanaeth wedi ei nodi yng Nghynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru, a

(ii) yw rhan o'r ardal honno yng Nghymru a rhan ohoni yn Lloegr;

Local bus services provided by the Welsh Ministers

18 Provision of local bus services by the Welsh Ministers

(1) The Welsh Ministers may, for the purposes of fulfilling their duty under section 5(1)(c) in respect of a local bus service, provide a local bus service if they are satisfied that doing so would be a more effective way of fulfilling that duty than entering into a local bus service contract under section 10 in respect of the service.

(2) Subsection (1) does not apply to a local bus service that is a community bus service.

Reliance on certain services

19 Reliance on community bus services and certain other services for the purposes of the section 5(1)(c) duty

(1) The Welsh Ministers may, for the purposes of fulfilling their duty under section 5(1)(c) in respect of a local bus service, rely on the provision by any person of a service within subsection (2) (without, in the case of a service in respect of which the powers in section 10 or 12 are available, entering into a local bus service contract or granting a local bus service permit in respect of the service).

(2) The services within this subsection are—

(a) a local bus service that is a community bus service;

(b) a local bus service provided as described in section 46(1) of the 1981 Act (paying passengers on school buses);

(c) a section 19 service;

(d) a Part 3 of Schedule 1 service.

Cross-border services

20 Cross-border services and the duty to secure the provision of services

(1) For the purposes of this section—

(a) a local bus service that is a standard local bus service is a cross-border service if—

(i) the route of the service is set out in the Welsh Bus Network Plan, and

(ii) that route is partly in Wales and partly in England;

(b) a local bus service that is a flexible local bus service is a cross-border service if—

(i) the service's geographical area of operation is set out in the Welsh Bus Network Plan, and

(ii) that area is partly in Wales and partly in England;

(c) mae cyfeiriadau at wasanaeth trawsffiniol yn Lloegr yn gyfeiriadau at wasanaeth trawsffiniol i'r graddau—

(i) yn achos gwasanaeth bysiau lleol safonol, y mae ei lwybr yn Lloegr;

(ii) yn achos gwasanaeth bysiau lleol hyblyg, y mae ei ardal weithredu yn Lloegr.

(2) Nid yw adran 5(1)(c) i'w thrin fel pe bai'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod gwasanaeth trawsffiniol yn Lloegr yn cael ei ddarparu os ydynt yn ystyried bod yr amod yn is-adran (3) wedi ei fodloni mewn perthynas â'r gwasanaeth.

(3) Yr amod yw y caiff yr anghenion trafnidiaeth perthnasol eu diwallu heb i Weinidogion Cymru sicrhau bod y gwasanaeth trawsffiniol yn Lloegr yn cael ei ddarparu.

(4) At y diben hwn, ystyr "yr anghenion trafnidiaeth perthnasol" yw'r anghenion trafnidiaeth yng Nghymru a fyddai'n cael eu diwallu pe bai Gweinidogion Cymru yn sicrhau bod y gwasanaeth trawsffiniol yn Lloegr yn cael ei ddarparu.

(5) Wrth ystyried a yw'r amod yn is-adran (3) wedi ei fodloni, nid oes ystyriaeth i'w rhoi i unrhyw ddarpariaeth a sicrheir gan gyngor sir yn Lloegr o dan adran 63 o Ddeddf 1985 (swyddogaethau cynghorau lleol mewn perthynas â thrafnidiaeth).

Gofynion adrodd

21 Adroddiad ar gynnydd tuag at amcanion adran 4

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio adroddiad o dan yr adran hon, mewn perthynas â phob cyfnod adrodd, yn nodi asesiad Gweinidogion Cymru o'r ffordd y mae arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon gan Weinidogion Cymru yn ystod y cyfnod adrodd wedi cyfrannu at gyflawni'r amcanion yn adran 4, a'r graddau y mae arfer y swyddogaethau hynny ganddynt wedi cyfrannu at gyflawni'r amcanion hynny.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru, ddim hwyrach na 12 mis ar ôl diwedd pob cyfnod adrodd—

(a) cyhoeddi'r adroddiad o dan yr adran hon sy'n ymwneud â'r cyfnod adrodd hwnnw, a

(b) gosod yr adroddiad gerbron Senedd Cymru.

(3) Yn yr adran hon, ystyr y "cyfnod adrodd" yw—

(a) yn achos y cyfnod adrodd cyntaf, y cyfnod o ddwy flynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y daw adran 5(1)(c) i rym (at unrhyw ddiben neu ar gyfer unrhyw ardal);

(b) yn achos cyfnodau adrodd dilynol, cyfnodau olynol o bedair blynedd.

(4) At ddibenion is-adran (1), nid yw swyddogaethau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys swyddogaeth sy'n arferadwy o dan adran 48.

Hysbysiad i'w roi i gomisiynydd traffig

22 Hysbysiad i'w roi i gomisiynydd traffig o faterion penodol sy'n ymwneud â chontractau a thrwyddedau gwasanaeth bysiau lleol

Rhaid i Weinidogion Cymru—

(c) references to a cross-border service in England are to a cross-border service so far as—

(i) in the case of a standard local bus service, its route is in England;

(ii) in the case of a flexible local bus service, its area of operation is in England.

(2) Section 5(1)(c) is not to be treated as requiring the Welsh Ministers to secure the provision of a cross-border service in England if they consider that the condition in subsection (3) is met in relation to it.

(3) The condition is that the relevant transport needs will be met without the Welsh Ministers securing the provision of the cross-border service in England.

(4) For this purpose, "the relevant transport needs" are the transport needs in Wales that would be met by the Welsh Ministers securing the provision of the cross-border service in England.

(5) In considering whether the condition in subsection (3) is met, no account is to be taken of any provision secured by a county council in England under section 63 of the 1985 Act (functions of local councils with respect to transport).

Reporting requirements

21 Report on progress towards section 4 objectives

(1) The Welsh Ministers must prepare a report under this section, in relation to each reporting period, setting out the Welsh Ministers' assessment of the way in which, and the extent to which, the exercise by the Welsh Ministers of functions under this Act during the reporting period has contributed to achieving the objectives in section 4.

(2) The Welsh Ministers must, no later than 12 months after the end of each reporting period—

(a) publish the report under this section that relates to that reporting period, and

(b) lay it before Senedd Cymru.

(3) In this section, the "reporting period" means—

(a) in the case of the first reporting period, the period of two years beginning with the day on which section 5(1)(c) comes into force (for any purpose or area);

(b) in the case of subsequent reporting periods, successive periods of four years.

(4) For the purposes of subsection (1), functions under this Act do not include a function exercisable under section 48.

Notification to be given to a traffic commissioner

22 Notification to be given to traffic commissioner of certain matters relating to local bus service contracts and permits

The Welsh Ministers must—

(a) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ymrwymo i gontract gwasanaeth bysiau lleol o dan adran 10, hysbysu comisiynydd traffig yr ymrwymwyd i'r contract;

(b) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i drwydded gwasanaeth bysiau lleol gael ei rhoi o dan adran 12, hysbysu comisiynydd traffig bod y drwydded wedi ei rhoi, ac am y cyfnod a bennir yn y drwydded o dan adran 13(1);

(c) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i gontract gwasanaeth bysiau lleol derfynu, pa un ai o dan delerau'r contract neu fel arall, hysbysu comisiynydd traffig ei fod wedi terfynu;

(d) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i drwydded gwasanaeth bysiau lleol gael ei dirymu neu ei hatal dros dro o dan adran 16, hysbysu comisiynydd traffig ei bod wedi ei dirymu neu ei hatal dros dro ac, yn achos atal trwydded dros dro, y cyfnod y mae'r ataliad dros dro yn cael effaith.

RHAN 3

CYFYNGIAD AR DDARPARU GWASANAETHAU BYSIAU LLEOL

23 Cyfyngiad ar ddarparu gwasanaethau bysiau lleol

(1) Ni chaniateir darparu gwasanaeth bysiau lleol yng Nghymru oni bai—

(a) ei fod yn cael ei ddarparu yng Nghymru o dan gontract gwasanaeth bysiau lleol,

(b) ei fod yn cael ei ddarparu yng Nghymru o dan drwydded gwasanaeth bysiau lleol, neu

(c) ei fod yn cael ei ddarparu yng Nghymru gan Weinidogion Cymru o dan adran 18.

(2) Ond nid yw is-adran (1) yn gymwys i wasanaeth bysiau lleol—

(a) sy'n wasanaeth bysiau cymunedol, neu

(b) sy'n cael ei ddarparu fel y'i disgrifir yn adran 46(1) o Ddeddf 1981 (teithwyr sy'n talu am deithio ar fysiau ysgol).

(3) Caiff rheoliadau ddiwygio'r adran hon at ddibenion darparu bod is-adran (1) yn gymwys neu nad yw'n gymwys i ddisgrifiad penodedig o wasanaeth bysiau lleol, neu ei bod yn gymwys neu nad yw'n gymwys i wasanaeth bysiau lleol a ddarperir mewn modd penodedig.

24 Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hysbysu comisiynydd traffig am unrhyw achos o dorri'r cyfyngiad

Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod person yn gweithredu gwasanaeth bysiau lleol neu wedi gweithredu gwasanaeth o'r fath yn groes i adran 23 rhaid iddynt hysbysu comisiynydd traffig.

25 Gorfodi'r cyfyngiad

(1) Os yw comisiynydd traffig wedi ei fodloni—

(a) bod person yn gweithredu gwasanaeth bysiau lleol neu wedi gweithredu gwasanaeth o'r fath yn groes i adran 23, a

(a) as soon as reasonably practicable after a local bus service contract has been entered into under section 10, notify a traffic commissioner that the contract has been entered into;

(b) as soon as reasonably practicable after a local bus service permit has been granted under section 12, notify a traffic commissioner of the grant of the permit, and the period specified in the permit under section 13(1);

(c) as soon as reasonably practicable after a local bus service contract has terminated, whether under the terms of the contract or otherwise, notify a traffic commissioner of the termination;

(d) as soon as reasonably practicable after a local bus service permit has been revoked or suspended under section 16, notify a traffic commissioner of the revocation or suspension and, in the case of the suspension of a permit, the period for which the suspension has effect.

PART 3

RESTRICTION ON PROVIDING LOCAL BUS SERVICES

23 Restriction on providing local bus services

(1) A local bus service must not be provided in Wales unless—

(a) its provision in Wales is under a local bus service contract,

(b) its provision in Wales is under a local bus service permit, or

(c) it is provided in Wales by the Welsh Ministers under section 18.

(2) But subsection (1) does not apply to a local bus service—

(a) that is a community bus service, or

(b) that is provided as described in section 46(1) of the 1981 Act (paying passengers on school buses).

(3) Regulations may amend this section for the purposes of providing that subsection (1) applies or does not apply to a specified description of local bus service, or does or does not apply to a local bus service that is provided in a specified manner.

24 Duty on Welsh Ministers to inform traffic commissioner of any breach of the restriction

If the Welsh Ministers consider that a person is operating or has operated a local bus service in contravention of section 23 they must inform a traffic commissioner.

25 Enforcement of the restriction

(1) If a traffic commissioner is satisfied that—

(a) a person is operating or has operated a local bus service in contravention of section 23, and

(b) wrth weithredu'r gwasanaeth hwnnw, fod y person wedi methu â chymryd pob cam rhesymol i osgoi torri gofynion yr adran honno,

caiff y comisiynydd traffig wneud un neu ragor o orchmynion o dan is-adran (2).

(2) Y gorchmynion yw—

(a) gorchymyn i'r person dalu, o fewn amser a bennir yn y gorchymyn, gosb o unrhyw swm y mae'r comisiynydd traffig yn credu ei fod yn briodol o dan holl amgylchiadau'r achos, ond nad yw'n fwy na'r terfyn uchaf;

(b) gorchymyn o unrhyw ddisgrifiad arall a ragnodir mewn rheoliadau.

(3) Os yw person yn methu â chydymffurfio â gorchymyn o dan is-adran (2), a bod yr amod yn is-adran (5) wedi ei fodloni mewn perthynas â'r gorchymyn, caiff comisiynydd traffig wneud gorchymyn o dan yr is-adran hon yn gorchymyn i'r person dalu, o fewn cyfnod a bennir yn y gorchymyn, gosb ychwanegol.

(4) Caiff y gosb ychwanegol fod yn unrhyw swm y mae'r comisiynydd traffig yn credu ei fod yn briodol o dan holl amgylchiadau'r achos, ond ni chaiff fod yn fwy na 110% o'r terfyn uchaf.

(5) Yr amod yw naill ai—

(a) ar apêl o dan adran 26 yn erbyn gwneud y gorchymyn, bod y gorchymyn wedi ei gadarnhau, neu

(b) bod y cyfnod ar gyfer dwyn apêl i'r Uwch Dribiwnlys o dan adran 26 yn erbyn gwneud y gorchymyn wedi dod i ben heb fod apêl wedi ei dwyn.

(6) Ar ôl gwneud gorchymyn o dan is-adran (2) neu (3), rhaid i'r comisiynydd traffig roi hysbysiad i—

(a) y person y mae'r gorchymyn wedi ei wneud mewn perthynas ag ef, a

(b) Gweinidogion Cymru.

(7) Ac eithrio i unrhyw raddau y darperir ar eu cyfer mewn rheoliadau o dan yr adran hon, mae swm y gorchmynnir ei dalu o dan is-adran (2) neu (3) yn daladwy i Weinidogion Cymru ac yn adenilladwy, ar orchymyn llys, fel pe bai'n daladwy o dan orchymyn llys.

(8) Caiff rheoliadau o dan yr is-adran hon wneud darpariaeth ynghylch gorchmynion o dan yr adran hon gan gynnwys darpariaeth ynghylch (ymhlith pethau eraill)—

(a) ffurf a chynnwys gorchymyn;

(b) y weithdrefn sydd i'w dilyn gan gomisiynydd traffig mewn perthynas â gorchymyn.

(9) Y terfyn uchaf, at ddibenion cosb y gorchmynnir i berson ei thalu o dan yr adran hon, yw

(a) yn achos person sydd, ar yr adeg berthnasol, wedi ei drwyddedu i ddefnyddio cerbydau o dan drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus, y swm a gyfrifir drwy luosi cyfanswm nifer y cerbydau y mae'r person wedi ei drwyddedu i'w defnyddio o dan yr holl drwyddedau gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus a ddelir gan y person ar yr adeg berthnasol, â'r naill neu'r llall o—

(i) swm a bennir mewn rheoliadau o dan yr is-baragraff hwn, neu

(ii) os nad oes unrhyw swm wedi ei bennu felly, £550;

(b) in operating that service, the person has failed to take all reasonable steps to avoid contravening the requirements of that section,

the traffic commissioner may make one or more orders under subsection (2).

(2) The orders are—

(a) an order that the person pay, within a time specified in the order, a penalty of any amount that the traffic commissioner thinks appropriate in all the circumstances of the case, but which does not exceed the upper limit;

(b) an order of any other description prescribed in regulations.

(3) If a person fails to comply with an order under subsection (2), and the condition in subsection (5) is met in respect of the order, a traffic commissioner may make an order under this subsection ordering the person to pay, within a period specified in the order, an additional penalty.

(4) The additional penalty may be any amount that the traffic commissioner thinks appropriate in all the circumstances of the case, but must not exceed 110% of the upper limit.

(5) The condition is that either—

(a) on an appeal under section 26 against the making of the order, the order has been upheld, or

(b) the period within which an appeal under section 26 against the making of the order may be brought to the Upper Tribunal has expired, without an appeal having been brought.

(6) After making an order under subsection (2) or (3), the traffic commissioner must give notice to—

(a) the person with respect to whom the order has been made, and

(b) the Welsh Ministers.

(7) Except to any extent provided for in regulations under this section, an amount ordered to be paid under subsection (2) or (3) is payable to the Welsh Ministers and recoverable, on the order of a court, as if payable under a court order.

(8) Regulations under this subsection may make provision about orders under this section including provision about (among other things)—

(a) the form and content of an order;

(b) the procedure to be followed by a traffic commissioner in relation to an order.

(9) The upper limit, for the purposes of a penalty that a person is ordered to pay under this section, is—

(a) in the case of a person who, at the relevant time, is licensed to use vehicles under a PSV operator's licence, the sum that is calculated by multiplying the total number of vehicles that the person is licensed to use under all the PSV operator's licences held by the person at the relevant time by either—

(i) an amount specified in regulations under this sub-paragraph, or

(ii) in the absence of any amount being so specified, £550;

(b) yn achos person nad yw, ar yr adeg berthnasol, wedi ei drwyddedu i ddefnyddio cerbydau o dan drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus—

(i) swm a bennir mewn rheoliadau o dan yr is-baragraff hwn, neu

(ii) os nad oes unrhyw swm wedi ei bennu felly, £550.

(10) At ddibenion is-adran (9), yr "adeg berthnasol" yw—

(a) yn achos gorchymyn a wneir o dan is-adran (2)(a), yr adeg y gwneir y gorchymyn hwnnw;

(b) yn achos gorchymyn a wneir o dan is-adran (3) mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â gorchymyn o dan is-adran (2), yr adeg y gwnaed y gorchymyn hwnnw o dan is-adran (2).

26 Gorfodi cyfyngiad: apelau

(1) Caiff person y mae gorchymyn wedi ei wneud mewn perthynas ag ef o dan is-adran (2) neu (3) o adran 25 apelio i'r Uwch Dribiwnlys yn erbyn gwneud y gorchymyn.

(2) Ar apêl yn erbyn gwneud gorchymyn, caiff yr Uwch Dribiwnlys—

(a) cadarnhau'r gorchymyn;

(b) diddymu'r gorchymyn;

(c) rhoi gorchymyn arall yn lle'r gorchymyn a wnaed.

RHAN 4

GWYBODAETH A DATA

Darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru at ddibenion arfer swyddogaethau penodol

27 Darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru gan weithredwyr presennol a chyn-weithredwyr at ddibenion swyddogaethau o dan Ran 2 neu Ran 3

(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad o dan yr adran hon i—

(a) person sy'n gweithredu gwasanaeth bysiau lleol neu sydd wedi gweithredu gwasanaeth o'r fath,

(b) person sy'n gweithredu gwasanaeth adran 19 neu sydd wedi gweithredu gwasanaeth o'r fath, neu

(c) person sy'n gweithredu gwasanaeth Rhan 3 o Atodlen 1 neu sydd wedi gweithredu gwasanaeth o'r fath,

yn ei gwneud yn ofynnol i'r person ddarparu i Weinidogion Cymru wybodaeth a bennir yn yr hysbysiad mewn perthynas â'r gwasanaeth hwnnw.

(2) O ran yr hysbysiad—

(a) rhaid iddo nodi sut a phryd y mae'r wybodaeth i gael ei darparu;

(b) ni chaiff ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â chyfnod sy'n dod i ben fwy na phum mlynedd cyn y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad, nac sy'n ymwneud â dyddiad sy'n fwy na phum mlynedd cyn y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad.

(b) in the case of a person who, at the relevant time, is not licensed to use vehicles under a PSV operator's licence—

(i) an amount specified in regulations under this sub-paragraph, or

(ii) in the absence of any amount being so specified, £550.

(10) For the purposes of subsection (9), the "relevant time" is—

(a) in the case of an order made under subsection (2)(a), the time at which that order is made;

(b) in the case of an order made under subsection (3) in respect of failure to comply with an order under subsection (2), the time at which that order under subsection (2) was made.

26 Enforcement of restriction: appeals

(1) A person with respect to whom an order has been made under subsection (2) or (3) of section 25 may appeal to the Upper Tribunal against the making of the order.

(2) On an appeal against the making of an order, the Upper Tribunal may—

(a) uphold the order;

(b) quash the order;

(c) substitute another order for the order made.

PART 4

INFORMATION AND DATA

Provision of information to the Welsh Ministers for the purposes of exercising certain functions

27 Provision of information to the Welsh Ministers by current and former operators for the purposes of functions under Part 2 or 3

(1) The Welsh Ministers may give notice under this section to—

(a) a person who operates or has operated a local bus service,

(b) a person who operates or has operated a section 19 service, or

(c) a person who operates or has operated a Part 3 of Schedule 1 service,

requiring the person to provide the Welsh Ministers with information specified in the notice in relation to that service.

(2) The notice—

(a) must specify how and when the information is to be provided;

(b) may not require a person to provide information that relates to a period ending more than five years before, or to a date that is more than five years before, the date on which the notice is given.

(3) Ni chaniateir pennu gwybodaeth yn yr hysbysiad oni bai—

(a) bod Gweinidogion Cymru yn ystyried bod angen yr wybodaeth at ddiben arfer swyddogaeth berthnasol, a

(b) bod yr wybodaeth o fath a bennir mewn rheoliadau o dan yr adran hon.

(4) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon bennu gwybodaeth am (ymhlith pethau eraill)—

(a) amserlenni ac amlderau gwasanaeth, a phrydlondeb gwasanaethau;

(b) llwybrau ac ardaloedd gweithredu;

(c) mannau esgyn a mannau disgyn;

(d) trefniadau ar gyfer penderfynu pryd y caiff teithwyr eu codi neu eu gollwng;

(e) archebu siwrneiau;

(f) taliadau teithio, tocynnau, refeniw a chostau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau;

(g) mathau o siwrneiau a nifer y siwrneiau a wneir;

(h) niferoedd teithwyr;

(i) cerbydau a'r defnydd ohonynt;

(j) cyfleusterau sydd ar gael i deithwyr ar gerbydau;

(k) cysylltiadau â gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr ac â gwasanaethau adran 19;

(l) amwynderau a chyfleusterau (gan gynnwys llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig) sydd ar gael yng nghyffiniau mannau esgyn a mannau disgyn;

(m) cyfansoddiad y gweithlu;

(n) rhagolygon yn ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r materion uchod.

(5) O ran y rheoliadau—

(a) rhaid iddynt wneud darpariaeth ynghylch apelau;

(b) cânt wneud darpariaeth ynghylch datgelu gwybodaeth (gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, ddarpariaeth ynghylch y defnydd o wybodaeth gan bersonau y'i datgelir iddynt).

(6) At ddibenion yr adran hon, "swyddogaeth berthnasol" yw—

(a) swyddogaeth Gweinidogion Cymru sy'n arferadwy o dan Ran 2 neu Ran 3;

(b) swyddogaeth Gweinidogion Cymru sydd fel arall yn arferadwy mewn perthynas â chontract gwasanaeth bysiau lleol, trwydded gwasanaeth bysiau lleol, neu wasanaeth y dibynnir arno o dan adran 19.

(7) Yn y Rhan hon, mae i "llwybr teithio llesol" a "cyfleusterau cysylltiedig" yr ystyr a roddir yn adran 2 o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 (dccc 7)

28 Darparu gwybodaeth am seilwaith a materion eraill penodol i Weinidogion Cymru gan awdurdodau lleol a chynghorau cymuned at ddibenion swyddogaethau o dan Ran 2

(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad o dan yr adran hon i awdurdod lleol neu gyngor cymuned yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod neu'r cyngor ddarparu i Weinidogion Cymru wybodaeth a bennir yn yr hysbysiad.

(3) Information may not be specified in the notice unless—

(a) the Welsh Ministers consider that the information is needed for the purpose of the exercise of a relevant function, and

(b) the information is of a kind that is specified in regulations under this section.

(4) Regulations under this section may specify information about (among other things)—

(a) timetables and frequencies of service, and punctuality of services;

(b) routes and areas of operation;

(c) embarkation and disembarkation points;

(d) arrangements for determining when passengers are taken up or set down;

(e) booking journeys;

(f) fares, tickets, revenue and costs associated with services;

(g) types and numbers of journeys made;

(h) passenger numbers;

(i) vehicles and their use;

(j) facilities that are available to passengers on vehicles;

(k) connections to public passenger transport services and to section 19 services;

(l) amenities and facilities (including active travel routes and related facilities) that are available in the vicinity of embarkation and disembarkation points;

(m) workforce composition;

(n) forecasts relating to any of the above matters.

(5) The regulations—

(a) must make provision about appeals;

(b) may make provision about the disclosure of information (including, among other things, about the use of information by persons to whom it is disclosed).

(6) For the purposes of this section, a "relevant function" is—

(a) a function of the Welsh Ministers that is exercisable under Part 2 or 3;

(b) a function of the Welsh Ministers that is otherwise exercisable in respect of a local bus service contract, a local bus service permit, or a service relied on under section 19.

(7) In this Part, "active travel route" and "related facilities" have the meaning given in section 2 of the Active Travel (Wales) Act 2013 (anaw 7).

28 Provision of information about infrastructure and certain other matters to the Welsh Ministers by local authorities and community councils for the purposes of functions under Part 2

(1) The Welsh Ministers may give notice under this section to a local authority or a community council requiring the authority or the council to provide the Welsh Ministers with information specified in the notice.

(2) Rhaid i'r hysbysiad nodi sut a phryd y mae'r wybodaeth i gael ei darparu.

(3) Ni chaniateir pennu gwybodaeth yn yr hysbysiad oni bai—

(a) bod Gweinidogion Cymru yn ystyried bod angen yr wybodaeth at ddibenion arfer eu swyddogaethau o dan Ran 2, a

(b) bod yr wybodaeth o fath a bennir mewn rheoliadau o dan yr adran hon.

(4) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon bennu gwybodaeth am (ymhlith pethau eraill)—

(a) llwybrau;

(b) mannau lle y caniateir i deithwyr esgyn i wasanaethau bysiau a disgyn oddi arnynt;

(c) seilwaith, gan gynnwys seilwaith trafnidiaeth ffyrdd a seilwaith priffyrdd;

(d) gweithredu gwasanaethau bysiau;

(e) argaeledd gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr a gwasanaethau adran 19;

(f) amwynderau a chyfleusterau (gan gynnwys llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig).

Gwybodaeth i'w rhoi i'r cyhoedd

29 Dyletswydd i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r cyhoedd

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru wneud trefniadau i sicrhau bod yr wybodaeth a bennir mewn rheoliadau o dan yr adran hon yn cael ei rhoi i'r cyhoedd.

(2) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon bennu gwybodaeth sy'n ymwneud â gwasanaeth o fewn is-adran (3).

(3) Y gwasanaethau yw—

(a) gwasanaeth bysiau lleol;

(b) gwasanaeth adran 19 y dibynnir arno fel y'i disgrifir yn adran 19;

(c) gwasanaeth Rhan 3 o Atodlen 1 y dibynnir arno fel y'i disgrifir yn adran 19.

(4) Mae'r wybodaeth y caniateir ei phennu yn y rheoliadau yn cynnwys gwybodaeth am (ymhlith pethau eraill)—

(a) amserlenni ac amlderau gwasanaeth, a phrydlondeb gwasanaethau;

(b) llwybrau ac ardaloedd gweithredu;

(c) mannau esgyn a mannau disgyn;

(d) trefniadau ar gyfer penderfynu pryd y caiff teithwyr eu codi neu eu gollwng;

(e) archebu siwrneiau;

(f) taliadau teithio a thocynnau;

(g) gweithredu gwasanaethau, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill)—

(i) lleoliad cerbydau;

(ii) yr amser y mae gwasanaeth wedi cyrraedd neu y disgwylir iddo gyrraedd cyrchfan;

(h) cyfleusterau sydd ar gael i deithwyr ar gerbydau;

(2) The notice must specify how and when the information is to be provided.

(3) Information may not be specified in the notice unless—

(a) the Welsh Ministers consider that the information is needed for the purposes of the exercise of their functions under Part 2, and

(b) the information is of a kind that is specified in regulations under this section.

(4) Regulations under this section may specify information about (among other things)—

(a) routes;

(b) points where passengers are permitted to embark onto, and disembark from, bus services;

(c) infrastructure, including road transport and highways infrastructure;

(d) the operation of bus services;

(e) the availability of public passenger transport services and of section 19 services;

(f) amenities and facilities (including active travel routes and related facilities).

Information to be made available to the public

29 Duty to secure that information is made available to the public

(1) The Welsh Ministers must make arrangements to secure that the information specified in regulations under this section is made available to the public.

(2) Regulations under this section may specify information relating to a service within subsection (3).

(3) The services are—

(a) a local bus service;

(b) a section 19 service that is being relied upon as described in section 19;

(c) a Part 3 of Schedule 1 service that is being relied upon as described in section 19.

(4) The information that may be specified in the regulations includes information about (among other things)—

(a) timetables and frequencies of service, and punctuality of services;

(b) routes and areas of operation;

(c) embarkation points and disembarkation points;

(d) arrangements for determining when passengers are taken up or set down;

(e) booking journeys;

(f) fares and tickets;

(g) the operation of services, including (among other things)—

(i) the location of vehicles;

(ii) the time at which a service has arrived or is expected to arrive at a destination;

(h) facilities that are available to passengers on vehicles;

(i) cysylltiadau â gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr ac â gwasanaethau adran 19;

(j) amwynderau a chyfleusterau (gan gynnwys llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig) sydd ar gael yng nghyffiniau mannau esgyn a mannau disgyn.

(5) Rhaid i'r rheoliadau wneud darpariaeth sy'n pennu sut a phryd y mae'r wybodaeth i gael ei rhoi i'r cyhoedd.

30 Darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru at ddibenion adran 29

(1) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon ei gwneud yn ofynnol—

(a) i berson sy'n gweithredu gwasanaeth bysiau lleol,

(b) i berson sy'n gweithredu gwasanaeth adran 19 y dibynnir arno fel y'i disgrifir yn adran 19, neu

(c) i berson sy'n gweithredu gwasanaeth Rhan 3 o Atodlen 1 y dibynnir arno fel y'i disgrifir yn adran 19,

ddarparu gwybodaeth benodedig mewn perthynas â'r gwasanaeth i Weinidogion Cymru.

(2) Ni chaniateir pennu gwybodaeth yn y rheoliadau oni bai bod Gweinidogion Cymru yn ystyried bod angen yr wybodaeth at ddiben y ddyletswydd o dan adran 29(1).

(3) Mae'r wybodaeth y caniateir ei phennu yn y rheoliadau yn cynnwys gwybodaeth am (ymhlith pethau eraill)—

(a) amserlenni ac amlderau gwasanaeth, a phrydlondeb gwasanaethau;

(b) llwybrau ac ardaloedd gweithredu;

(c) mannau esgyn a mannau disgyn;

(d) trefniadau ar gyfer penderfynu pryd y caiff teithwyr eu codi neu eu gollwng;

(e) archebu siwrneiau;

(f) taliadau teithio a thocynnau;

(g) gweithredu gwasanaethau, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill)—

(i) lleoliad cerbydau;

(ii) yr amser y mae gwasanaeth wedi cyrraedd neu y disgwylir iddo gyrraedd cyrchfan;

(h) cyfleusterau sydd ar gael i deithwyr ar gerbydau;

(i) cysylltiadau â gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr ac â gwasanaethau adran 19;

(j) amwynderau a chyfleusterau (gan gynnwys llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig) sydd ar gael yng nghyffiniau mannau esgyn a mannau disgyn.

(4) Rhaid i'r rheoliadau wneud darpariaeth sy'n pennu sut a phryd y mae'r wybodaeth i gael ei darparu.

(i) connections to public passenger transport services and to section 19 services;

(j) amenities and facilities (including active travel routes and related facilities) that are available in the vicinity of embarkation and disembarkation points.

(5) The regulations must make provision specifying how and when the information is to be made available to the public.

30 Provision of information to the Welsh Ministers for the purposes of section 29

(1) Regulations under this section may require—

(a) a person who operates a local bus service,

(b) a person who operates a section 19 service that is being relied upon as described in section 19, or

(c) a person who operates a Part 3 of Schedule 1 service that is being relied upon as described in section 19,

to provide specified information in relation to the service to the Welsh Ministers.

(2) Information may not be specified in the regulations unless the Welsh Ministers consider that the information is needed for the purpose of the duty in section 29(1).

(3) The information that may be specified in the regulations includes information about (among other things)—

(a) timetables and frequencies of service, and punctuality of services;

(b) routes and areas of operation;

(c) embarkation points and disembarkation points;

(d) arrangements for determining when passengers are taken up or set down;

(e) booking journeys;

(f) fares and tickets;

(g) the operation of services, including (among other things)—

(i) the location of vehicles;

(ii) the time at which a service has arrived or is expected to arrive at a destination;

(h) facilities that are available to passengers on vehicles;

(i) connections to public passenger transport services and to section 19 services;

(j) amenities and facilities (including active travel routes and related facilities) that are available in the vicinity of embarkation and disembarkation points.

(4) The regulations must make provision specifying how and when the information is to be provided.

Braint gyfreithiol

31 Darparu gwybodaeth: eithriad ar sail braint gyfreithiol

Nid yw gofyniad a osodir ar berson o dan adran 27, 28 neu 30 yn gymwys i wybodaeth y byddai gan y person, mewn achos cyfreithiol, hawl i wrthod ei darparu ar sail braint gyfreithiol.

Gorfodi

32 Gorfodi gofynion gwybodaeth

(1) Os yw comisiynydd traffig wedi ei fodloni bod person sy'n gweithredu gwasanaeth bysiau neu sydd wedi gweithredu gwasanaeth bysiau, heb esgus rhesymol, wedi methu â chydymffurfio â gofyniad i ddarparu gwybodaeth yn unol â hysbysiad a roddir o dan adran 27 neu reoliadau a wneir o dan adran 30, caiff y comisiynydd traffig wneud un neu ragor o orchmynion o dan is-adran (2).

(2) Y gorchmynion yw—

(a) gorchymyn i'r person dalu, o fewn amser a bennir yn y gorchymyn, gosb o unrhyw swm y mae'r comisiynydd traffig yn credu ei fod yn briodol o dan holl amgylchiadau'r achos, ond nad yw'n fwy na'r terfyn uchaf;

(b) gorchymyn o unrhyw ddisgrifiad arall a ragnodir mewn rheoliadau.

(3) Os yw person yn methu â chydymffurfio â gorchymyn o dan is-adran (2), a bod yr amod yn is-adran (5) wedi ei fodloni mewn perthynas â'r gorchymyn, caiff comisiynydd traffig wneud gorchymyn o dan yr is-adran hon yn gorchymyn i'r person dalu, o fewn cyfnod a bennir yn y gorchymyn, gosb ychwanegol.

(4) Caiff y gosb ychwanegol fod yn unrhyw swm y mae'r comisiynydd traffig yn credu ei fod yn briodol o dan holl amgylchiadau'r achos, ond ni chaiff fod yn fwy na 110% o'r terfyn uchaf.

(5) Yr amod yw naill ai—

(a) ar apêl o dan adran 33 yn erbyn gwneud y gorchymyn, bod y gorchymyn wedi ei gadarnhau, neu

(b) bod y cyfnod ar gyfer dwyn apêl i'r Uwch Dribiwnlys o dan adran 33 yn erbyn gwneud y gorchymyn wedi dod i ben heb fod apêl wedi ei dwyn.

(6) Ar ôl gwneud gorchymyn o dan is-adran (2) neu (3), rhaid i'r comisiynydd traffig roi hysbysiad i—

(a) y person y mae'r gorchymyn wedi ei wneud mewn perthynas ag ef, a

(b) Gweinidogion Cymru.

(7) Ac eithrio i unrhyw raddau y darperir ar eu cyfer mewn rheoliadau o dan yr adran hon, mae swm y gorchmynnir ei dalu o dan is-adran (2) neu (3) yn daladwy i Weinidogion Cymru ac yn adenilladwy, ar orchymyn llys, fel pe bai'n daladwy o dan orchymyn llys.

(8) Caiff rheoliadau o dan yr is-adran hon wneud darpariaeth ynghylch gorchmynion o dan yr adran hon gan gynnwys darpariaeth ynghylch (ymhlith pethau eraill)—

(a) ffurf a chynnwys gorchymyn;

Legal privilege

31 Provision of information: exclusion on grounds of legal privilege

A requirement imposed on a person under section 27, 28 or 30 does not apply to information that the person would in legal proceedings be entitled to refuse to provide on grounds of legal privilege.

Enforcement

32 Enforcement of information requirements

(1) If a traffic commissioner is satisfied that a person who is operating or has operated a bus service has, without reasonable excuse, failed to comply with a requirement to provide information in accordance with a notice given under section 27 or regulations made under section 30, the traffic commissioner may make one or more orders under subsection (2).

(2) The orders are—

(a) an order that the person pay, within a time specified in the order, a penalty of any amount that the traffic commissioner thinks appropriate in all the circumstances of the case, but which does not exceed the upper limit;

(b) an order of any other description prescribed in regulations.

(3) If a person fails to comply with an order under subsection (2), and the condition in subsection (5) is met in respect of the order, a traffic commissioner may make an order under this subsection ordering the person to pay, within a period specified in the order, an additional penalty.

(4) The additional penalty may be any amount that the traffic commissioner thinks appropriate in all the circumstances of the case, but must not exceed 110% of the upper limit.

(5) The condition is that either—

(a) on an appeal under section 33 against the making of the order, the order has been upheld, or

(b) the period within which an appeal under section 33 against the making of the order may be brought to the Upper Tribunal has elapsed, without an appeal having been brought.

(6) After making an order under subsection (2) or (3), the traffic commissioner must give notice to—

(a) the person with respect to whom the order has been made, and

(b) the Welsh Ministers.

(7) Except to any extent provided for in regulations under this section, an amount ordered to be paid under subsection (2) or (3) is payable to the Welsh Ministers and recoverable, on the order of a court, as if payable under a court order.

(8) Regulations under this subsection may make provision about orders under this section including provision about (among other things)—

(a) the form and content of an order;

(b) y weithdrefn sydd i'w dilyn gan gomisiynydd traffig mewn perthynas â gorchymyn.

(9) Y terfyn uchaf, at ddibenion cosb y gorchmynnir i berson ei thalu o dan yr adran hon, yw—

(a) yn achos person a oedd, ar yr adeg berthnasol, wedi ei drwyddedu i ddefnyddio cerbydau o dan drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus, y swm a gyfrifir drwy luosi cyfanswm nifer y cerbydau yr oedd y person wedi ei drwyddedu i'w defnyddio o dan yr holl drwyddedau gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus a ddalid gan y person ar yr adeg berthnasol, â'r naill neu'r llall o—

(i) swm a bennir mewn rheoliadau o dan yr is-baragraff hwn, neu

(ii) os nad oes unrhyw swm wedi ei bennu felly, £550;

(b) yn achos person nad oedd, ar yr adeg berthnasol, wedi ei drwyddedu i ddefnyddio cerbydau o dan drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus—

(i) swm a bennir mewn rheoliadau o dan yr is-baragraff hwn, neu

(ii) os nad oes unrhyw swm wedi ei bennu felly, £550.

(10) At ddibenion is-adran (9), yr "adeg berthnasol" yw—

(a) yn achos methiant i gydymffurfio â gofyniad i ddarparu gwybodaeth yn unol â hysbysiad a roddir o dan adran 27, yr amser y rhoddwyd yr hysbysiad;

(b) yn achos methiant i gydymffurfio â gofyniad i ddarparu gwybodaeth yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 30, yr amser y methodd y person â chydymffurfio â'r gofyniad hwnnw.

33 Gorfodi gofynion gwybodaeth: apelau

(1) Caiff person y mae gorchymyn wedi ei wneud mewn perthynas ag ef o dan is-adran (2) neu (3) o adran 32 apelio i'r Uwch Dribiwnlys yn erbyn gwneud y gorchymyn.

(2) Ar apêl yn erbyn gwneud gorchymyn, caiff yr Uwch Dribiwnlys—

(a) cadarnhau'r gorchymyn;

(b) diddymu'r gorchymyn;

(c) rhoi gorchymyn arall yn lle'r gorchymyn a wnaed.

RHAN 5

PWERAU A DYLETSWYDDAU AWDURDODAU LLEOL

34 Darparu gwasanaethau bysiau gan awdurdodau lleol: dileu'r cyfyngiad

(1) Mae Deddf 1985 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 66 (cyfyngiad ar bwerau cynghorau penodol i weithredu ymgymeriadau bysiau), yn is-adran (1), hepgorer "a county council or county borough council in Wales".

35 Dileu dyletswydd i sicrhau gwasanaethau bysiau lleol

Yn Neddf 1985, yn adran 63 (swyddogaethau cynghorau lleol mewn perthynas â thrafnidiaeth teithwyr), ar ôl is-adran (1) mewnosoder—

(b) the procedure to be followed by a traffic commissioner in relation to an order.

(9) The upper limit, for the purposes of a penalty that a person is ordered to pay under this section, is—

(a) in the case of a person who, at the relevant time, was licensed to use vehicles under a PSV operator's licence, the sum that is calculated by multiplying the total number of vehicles that the person was licensed to use under all the PSV operator's licences held by the person at the relevant time by either—

(i) an amount specified in regulations under this sub-paragraph, or

(ii) in the absence of any amount being so specified, £550;

(b) in the case of a person who, at the relevant time, was not licensed to use vehicles under a PSV operator's licence—

(i) an amount specified in regulations under this sub-paragraph, or

(ii) in the absence of any amount being so specified, £550.

(10) For the purposes of subsection (9), the "relevant time" is—

(a) in the case of a failure to comply with a requirement to provide information in accordance with a notice given under section 27, the time at which the notice was given;

(b) in the case of a failure to comply with a requirement to provide information in accordance with regulations made under section 30, the time at which the person failed to comply with that requirement.

33 Enforcement of information requirements: appeals

(1) A person with respect to whom an order has been made under subsection (2) or (3) of section 32 may appeal to the Upper Tribunal against the making of the order.

(2) On an appeal against the making of an order, the Upper Tribunal may—

(a) uphold the order;

(b) quash the order;

(c) substitute another order for the order made.

PART 5

LOCAL AUTHORITY POWERS AND DUTIES

34 Provision of bus services by local authorities: removal of restriction

(1) The 1985 Act is amended as follows.

(2) In section 66 (exclusion of powers of certain councils to run bus undertakings), in subsection (1), omit "a county council or county borough council in Wales".

35 Removal of duty to secure local bus services

In the 1985 Act, in section 63 (functions of local councils with respect to passenger transport), after subsection (1) insert—

"(1A) The duty in subsection (1) does not require a council in Wales to secure the provision of a service that is a local bus service for the purposes of section 1 of the Bus Services (Wales) Act 2026 (asc [X])."

36 Cymorth ariannol mewn cysylltiad â gwasanaethau bysiau lleol

(1) Caiff awdurdod lleol roi cymorth ariannol mewn cysylltiad â darparu gwasanaeth bysiau lleol.

(2) Nid yw adran 88(1) o Ddeddf 1985 yn gymwys mewn perthynas â chymorth ariannol a roddir o dan is-adran (1) (ac, yn unol â hynny, nid yw adrannau 89 i 92 o'r Ddeddf honno (rheolau sy'n ymwneud â chytundebau cymhorthdal) yn gymwys).

(3) Yn adran 63 (swyddogaethau cynghorau lleol mewn perthynas â thrafnidiaeth teithwyr) o Ddeddf 1985, yn is-adran (9), yn y geiriau agoriadol, ar ôl "references to services", mewnosoder "in connection with which financial assistance has been given under section 36 of the Bus Services (Wales) Act 2026 and to services".

RHAN 6

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

Trosglwyddo ymgymeriadau

37 Cymhwyso Rheoliadau TUPE

(1) Rhaid i reoliadau wneud darpariaeth ar gyfer amgylchiadau pan fo trosglwyddiad perthnasol i'w drin fel pe bai'n digwydd at ddibenion Rheoliadau TUPE (i'r graddau nad hyn fyddai'r achos fel arall), pan—

(a) ymrwymir i gontract gwasanaeth bysiau lleol o dan adran 10, neu y'i terfynir neu y'i hamrywir, pa un ai o dan delerau'r contract neu fel arall;

(b) rhoddir trwydded gwasanaeth bysiau lleol o dan adran 12, neu y'i dirymir neu y'i hamrywir, neu fo'n peidio â chael effaith am fod y cyfnod a bennir o dan adran 13(1) wedi dod i ben;

(c) bydd Gweinidogion Cymru yn ymgymryd â darparu gwasanaeth bysiau lleol o dan adran 18, neu'n peidio â darparu gwasanaeth o'r fath.

(2) Pan fo rheoliadau'n gwneud darpariaeth o dan is-adran (1) ar gyfer amgylchiadau pan fo trosglwyddiad perthnasol i'w drin fel pe bai'n digwydd at ddibenion Rheoliadau TUPE—

(a) rhaid iddynt hefyd wneud darpariaeth i'r trosglwyddiad perthnasol hwnnw gael ei drin fel pe bai'n drosglwyddiad perthnasol, o fewn yr ystyr a roddir i "relevant transfer" yn Rheoliadau TUPE, at ddibenion adrannau 257 a 258 o Ddeddf Pensiynau 2024, ac unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 258 o'r Ddeddf honno;

(b) cânt wneud darpariaeth bellach mewn cysylltiad â chymhwyso Rheoliadau TUPE mewn perthynas â'r trosglwyddiad perthnasol.

(3) Yn yr adran hon—

(a) mae cyfeiriadau at Reoliadau TUPE yn gyfeiriadau at Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (O.S. 2006/246);

(b) mae cyfeiriadau at "trosglwyddiad perthnasol" yn gyfeiriadau at "relevant transfer" o fewn yr ystyr a roddir i'r term hwnnw yn y Rheoliadau hynny.

"(1A) The duty in subsection (1) does not require a council in Wales to secure the provision of a service that is a local bus service for the purposes of section 1 of the Bus Services (Wales) Act 2026 (asc [X])."

36 Financial assistance in connection with local bus services

(1) A local authority may give financial assistance in connection with the provision of a local bus service.

(2) Section 88(1) of the 1985 Act does not apply in relation to financial assistance given under subsection (1) (and, accordingly, sections 89 to 92 of that Act (rules relating to subsidy agreements) do not apply).

(3) In section 63 (functions of local councils with respect to passenger transport) of the 1985 Act, in subsection (9), in the opening words, after "references to services", insert "in connection with which financial assistance has been given under section 36 of the Bus Services (Wales) Act 2026 and to services".

PART 6

MISCELLANEOUS AND GENERAL

Transfer of undertakings

37 Application of TUPE

(1) Regulations must make provision for circumstances in which a relevant transfer is to be treated (to the extent that this would not otherwise be the case) as taking place for the purposes of TUPE, upon—

(a) a local bus service contract being entered into under section 10, or terminated or varied, whether under the terms of the contract or otherwise;

(b) a local bus service permit being granted under section 12, or revoked or varied, or ceasing to have effect by virtue of the expiry of the period specified under section 13(1);

(c) the Welsh Ministers undertaking the provision of a local bus service under section 18, or ceasing to provide such a service.

(2) Regulations that make provision under subsection (1) for circumstances in which a relevant transfer is to be treated as taking place for the purposes of TUPE—

(a) must also make provision for that relevant transfer to be treated as being a relevant transfer within the meaning of TUPE for the purposes of sections 257 and 258 of the Pensions Act 2004, and any regulations made under section 258 of that Act;

(b) may make further provision in connection with the application of TUPE in respect of the relevant transfer.

(3) In this section—

(a) references to TUPE are to the Transfer of Undertakings (Protection of Employment) Regulations 2006 (S.I. 2006/246);

(b) references to a "relevant transfer" are references to a relevant transfer within the meaning given to that term in those Regulations.

Deddf Trafnidiaeth 1985: cofrestru gwasanaethau â chomisiynydd traffig

38 Deddf Trafnidiaeth 1985: dileu gofynion sy'n ymwneud â chofrestru

(1) Mae Deddf 1985 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 6 (cofrestru gwasanaethau lleol)—

(a) yn is-adran (1), yn lle "or (1D)" rhodder ", (1D) or (1F)";

(b) ar ôl is-adran (1E) mewnosoder—

"(1F) A service is within this subsection if it is a local bus service for the purposes of section 1 of the Bus Services (Wales) Act 2026 (asc [X]).

(1G) But for the purposes of subsection (1F), a service that is within subsection (1I) is not to be treated as a local bus service (and is therefore a local service for the purposes of subsection (1)) unless it is—

(a) secured under a local bus service contract entered into under section 10(1) of the Bus Services (Wales) Act 2026, or

(b) a service in respect of which a local bus service permit granted under section 12(1) of that Act has effect.

(1H) For the purposes of subsection (1G)(b), a local bus service permit is to be treated as continuing to have effect throughout any period during which the permit is suspended under section 16(1) of the Bus Services (Wales) Act 2026.

(1I) The services are—

(a) a community bus service (within the meaning given in section 22(1) of this Act);

(b) a service provided as described in section 46(1) of the 1981 Act (fare-paying passengers on school buses).

(1J) In the case of a service that is a standard local bus service for the purposes of the Bus Services (Wales) Act 2026, any part of the service which is provided outside Wales is to be treated as a separate service for the purposes of subsection (1F) (and is therefore not a local bus service for the purposes of that subsection), if there is any stopping place for that part of the service outside Wales, or if there is any point outside Wales at which passengers may request to be taken up or set down (other than in the case of an emergency).

(1K) In the case of a service that is a flexible local bus service for the purposes of the Bus Services (Wales) Act 2026, any part of its area of operation which is outside Wales is to be treated as a separate service for the purposes of subsection (1F) (and is therefore not a local bus service for the purposes of that subsection)."

39 Deddf Trafnidiaeth 1985: cofrestriad presennol etc. yn peidio â chael effaith

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan—

Transport Act 1985: registration of services with traffic commissioner

38 Transport Act 1985: removal of requirements relating to registration

(1) The 1985 Act is amended as follows.

(2) In section 6 (registration of local services)—

(a) in subsection (1), for "or (1D)" substitute ", (1D) or (1F)";

(b) after subsection (1E) insert—

"(1F) A service falls within this subsection if it is a local bus service for the purposes of section 1 of the Bus Services (Wales) Act 2026 (asc [X]).

(1G) But for the purposes of subsection (1F), a service that is within subsection (1I) is not to be treated as a local bus service (and is therefore a local service for the purposes of subsection (1)) unless it is—

(a) secured under a local bus service contract entered into under section 10(1) of the Bus Services (Wales) Act 2026, or

(b) a service in respect of which a local bus service permit granted under section 12(1) of that Act has effect.

(1H) For the purposes of subsection (1G)(b), a local bus service permit is to be treated as continuing to have effect throughout any period during which the permit is suspended under section 16(1) of the Bus Services (Wales) Act 2026.

(1I) The services are—

(a) a community bus service (within the meaning given in section 22(1) of this Act);

(b) a service provided as described in section 46(1) of the 1981 Act (fare-paying passengers on school buses).

(1J) In the case of a service that is a standard local bus service for the purposes of the Bus Services (Wales) Act 2026, any part of the service which is provided outside Wales is to be treated as a separate service for the purposes of subsection (1F) (and is therefore not a local bus service for the purposes of that subsection), if there is any stopping place for that part of the service outside Wales, or if there is any point outside Wales at which passengers may request to be taken up or set down (other than in the case of an emergency).

(1K) In the case of a service that is a flexible local bus service for the purposes of the Bus Services (Wales) Act 2026, any part of its area of operation which is outside Wales is to be treated as a separate service for the purposes of subsection (1F) (and is therefore not a local bus service for the purposes of that subsection)."

39 Transport Act 1985: existing registration etc. ceasing to have effect

(1) This section applies where–

(a) bo gwasanaeth bysiau lleol wedi ei gofrestru â chomisiynydd traffig o dan adran 6 o Ddeddf 1985, ond

(b) bo'r gwasanaeth hwnnw yn peidio â bod yn wasanaeth lleol, at ddibenion adran 6, yn rhinwedd y diwygiadau a wneir i'r adran honno gan adran 38.

(2) Pan fydd y gwasanaeth yn peidio â bod yn wasanaeth lleol at ddibenion adran 6—

(a) mae cofrestriad y gwasanaeth o dan adran 6 yn peidio â chael effaith, a

(b) mae unrhyw amod sydd wedi ei roi ynghlwm wrth drwydded bysiau cymunedol neu drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus o dan adran 8 o Ddeddf 1985, i'r graddau y mae'n gymwys mewn cysylltiad â'r gwasanaeth, yn peidio â chael effaith.

Pŵer Gweinidogion Cymru i sicrhau bod gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr yn cael eu darparu

40 Cyfyngu ar y pŵer i sicrhau bod gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr yn cael eu darparu o dan adran 7 o Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006

(1) Mae adran 7 (darparu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr) o Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 (p. 5) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1), ar ôl "public passenger transport services" mewnosoder ", other than a service that is within subsection (1A),".

(3) Ar ôl is-adran (1), mewnosoder—

"(1A) A service is within this subsection if it is a local bus service for the purposes of section 1 of the Bus Services (Wales) Act 2026 (asc [X])."

(4) Ar ôl is-adran (4A), mewnosoder—

"(4B) The restriction in subsection (4) does not apply in the case of a local bus service contract entered into under the Bus Services (Wales) Act 2026 (asc [X])."

Deddf Trafnidiaeth 2000: cynlluniau awdurdod lleol

41 Deddf Trafnidiaeth 2000: dileu cynlluniau awdurdod lleol penodol

(1) Yn Neddf Trafnidiaeth 2000 (p. 38)—

(a) hepgorer adrannau 114 i 123 (cynlluniau partneriaeth ansawdd);

(b) hepgorer adrannau 124 i 134B (cynlluniau contractau ansawdd);

(c) hepgorer adrannau 135 i 138 (cynlluniau tocynnu ar y cyd).

(2) Mae unrhyw gynllun a wnaed o dan adran 114, 124, neu adran 135 o'r Ddeddf honno'n peidio â chael effaith.

Cyffredinol

42 Rheoliadau o dan y Ddeddf hon

(1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol Cymreig.

(a) a local bus service is registered with a traffic commissioner under section 6 of the 1985 Act, but

(b) that service ceases to be a local service, for the purposes of section 6, by virtue of the amendments made to that section by section 38.

(2) When the service ceases to be a local service for the purposes of section 6—

(a) the registration of the service under section 6 ceases to have effect, and

(b) any condition that has been attached to a community bus permit or a PSV operator's licence under section 8 of the 1985 Act, so far as applying in respect of the service, ceases to have effect.

Welsh Ministers' power to secure provision of public passenger transport services

40 Restriction on the power to secure the provision of public passenger transport services under section 7 of the Transport (Wales) Act 2006

(1) Section 7 (provision of public passenger transport services) of the Transport (Wales) Act 2006 (c. 5) is amended as follows.

(2) In subsection (1), after "public passenger transport services" insert ", other than a service that is within subsection (1A),".

(3) After subsection (1), insert—

"(1A) A service is within this subsection if it is a local bus service for the purposes of section 1 of the Bus Services (Wales) Act 2026 (asc [X])."

(4) After subsection (4A), insert—

"(4B) The restriction in subsection (4) does not apply in the case of a local bus service contract entered into under the Bus Services (Wales) Act 2026 (asc [X])."

Transport Act 2000: local authority schemes

41 Transport Act 2000: removal of certain local authority schemes

(1) In the Transport Act 2000 (c. 38)—

(a) omit sections 114 to 123 (quality partnership schemes);

(b) omit sections 124 to 134B (quality contracts schemes);

(c) omit sections 135 to 138 (joint ticketing schemes).

(2) Any scheme made under section 114, 124, or section 135 of that Act ceases to have effect.

General

42 Regulations under this Act

(1) A power to make regulations under this Act is exercisable by Welsh statutory instrument.

(2) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol ac ar gyfer ardaloedd gwahanol.

(3) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer i wneud—

(a) darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol a darpariaeth ganlyniadol;

(b) darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed.

(4) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud yn rhinwedd is-adran (3) yn cynnwys darpariaeth sy'n addasu unrhyw ddeddfiad (pa bryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir, a chan gynnwys y Ddeddf hon).

(5) Mae offeryn statudol Cymreig y mae'r is-adran hon yn gymwys iddo yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

(6) Mae is-adran (5) yn gymwys i offeryn statudol Cymreig sy'n cynnwys rheoliadau o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a ganlyn—

(a) adran 16(5) (dirymu trwyddedau gwasanaeth bysiau lleol a'u hatal dros dro);

(b) adran 23(3) (cymhwyso'r cyfyngiad yn adran 23);

(c) adran 25(2)(b) (gorchmynion eraill y caniateir eu gwneud gan gomisiynydd traffig mewn perthynas â thorri'r cyfyngiad yn adran 23);

(d) adran 25(9)(a)(i) a (b)(i) (penderfynu'r terfyn uchaf ar gyfer cosbau am dorri'r cyfyngiad yn adran 23);

(e) adran 27 (darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru at ddibenion swyddogaethau o dan Ran 2 neu Ran 3);

(f) adran 28 (darparu gwybodaeth am seilwaith a materion eraill i Weinidogion Cymru gan awdurdodau lleol a chynghorau cymuned);

(g) adran 29 (gwybodaeth i gael ei rhoi i'r cyhoedd);

(h) adran 30 (darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru at ddibenion adran 29);

(i) adran 32(2)(b) (gorchmynion eraill y caniateir eu gwneud gan gomisiynydd traffig mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â gofyniad i ddarparu gwybodaeth);

(j) adran 32(9)(a)(i) a (b)(i) (penderfynu'r terfyn uchaf ar gyfer cosbau am fethiant i gydymffurfio â gofyniad i ddarparu gwybodaeth);

(k) adran 37(1) a (3) (cymhwyso Rheoliadau TUPE);

(l) adran 44(3) (ystyr gweithredwr).

(7) Mae is-adran (5) hefyd yn gymwys i offeryn statudol Cymreig sy'n cynnwys rheoliadau o dan unrhyw ddarpariaeth nas crybwyllir yn is-adran (6), pan fo'r rheoliadau yn addasu unrhyw ddarpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol.

(8) Mae unrhyw offeryn statudol Cymreig arall sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd.

(9) Yn yr adran hon, ystyr "deddfwriaeth sylfaenol" yw unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) Deddf gan Senedd Cymru;

(b) Mesur gan y Cynulliad;

(c) Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig.

(2) A power to make regulations under this Act includes power to make different provision for different purposes and for different areas.

(3) A power to make regulations under this Act includes power to make—

(a) supplementary, incidental and consequential provision;

(b) transitional and saving provision.

(4) The provision that may be made by virtue of subsection (3) includes provision modifying any enactment (whenever enacted or made, and including this Act).

(5) A Welsh statutory instrument to which this subsection applies is subject to the Senedd approval procedure.

(6) Subsection (5) applies to a Welsh statutory instrument containing regulations under any of the following provisions—

(a) section 16(5) (revocation and suspension of local bus service permits);

(b) section 23(3) (application of restriction in section 23);

(c) section 25(2)(b) (other orders that may be made by traffic commissioner in respect of breach of restriction in section 23);

(d) section 25(9)(a)(i) and (b)(i) (determination of upper limit for penalties for breach of restriction in section 23);

(e) section 27 (provision of information to the Welsh Ministers for the purposes of functions under Part 2 or 3);

(f) section 28 (provision of information about infrastructure and other matters to the Welsh Ministers by local authorities and community councils);

(g) section 29 (information to be made available to the public);

(h) section 30 (provision of information to the Welsh Ministers for the purposes of section 29);

(i) section 32(2)(b) (other orders that may be made by traffic commissioner in respect of failure to comply with requirement to provide information);

(j) section 32(9)(a)(i) and (b)(i) (determination of upper limit for penalties for failure to comply with requirement to provide information);

(k) section 37(1) and (3) (application of TUPE);

(l) section 44(3) (meaning of operator).

(7) Subsection (5) also applies to a Welsh statutory instrument containing regulations under any provision not mentioned in subsection (6), where the regulations modify any provision of primary legislation.

(8) Any other Welsh statutory instrument containing regulations under this Act is subject to the Senedd annulment procedure.

(9) In this section, "primary legislation" means any of the following—

(a) an Act of Senedd Cymru;

(b) an Assembly Measure;

(c) an Act of the Parliament of the United Kingdom.

43 Rhoi hysbysiadau etc.

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo darpariaeth yn y Ddeddf hon neu mewn rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i berson neu'n awdurdodi person i—

(a) hysbysu person arall am rywbeth, neu

(b) rhoi dogfen i berson arall (pa un a yw'r ddarpariaeth yn defnyddio'r gair "cyflwyno" neu "rhoi" neu unrhyw derm arall).

(2) Caniateir rhoi'r hysbysiad neu'r ddogfen arall i'r person o dan sylw mewn unrhyw un neu ragor o'r ffyrdd a ganlyn—

(a) drwy ei roi neu ei rhoi i'r person â llaw;

(b) drwy ei adael neu ei gadael, wedi ei gyfeirio neu ei chyfeirio at y person, yng nghyfeiriad priodol y person;

(c) drwy ei anfon neu ei hanfon drwy bost rhagdaledig, wedi ei gyfeirio neu ei chyfeirio at y person yng nghyfeiriad priodol y person;

(d) os yw'r person wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno gan ddefnyddio cyfathrebiadau electronig, drwy ei anfon neu ei hanfon at y person yn y cyfeiriad hwnnw gan ddefnyddio cyfathrebiad electronig sy'n cydymffurfio â'r amodau yn is-adran (9).

(3) Mae'r cyfeiriad yn is-adran (2)(a) at roi hysbysiad neu ddogfen arall i berson â llaw—

(a) os mai corff corfforedig yw'r person, yn gyfeiriad at ei roi neu ei rhoi â llaw i un o swyddogion y corff;

(b) os mai partneriaeth yw'r person, yn gyfeiriad at ei roi neu ei rhoi â llaw i un o'r partneriaid.

(4) Mae'r cyfeiriad yn is-adran (2)(b) ac (c) at gyfeirio hysbysiad neu ddogfen arall at berson—

(a) os mai corff corfforedig yw'r person, yn gyfeiriad at ei gyfeirio neu ei chyfeirio at y corff corfforedig, neu at un o swyddogion y corff;

(b) os mai partneriaeth yw'r person, yn gyfeiriad at ei gyfeirio neu ei chyfeirio at y bartneriaeth, neu at un o'r partneriaid.

(5) Mae is-adrannau (6) i (8) yn gymwys at ddibenion penderfynu cyfeiriad priodol person fel y cyfeirir ato yn is-adrannau (2)(b) ac (c).

(6) Os yw'r person wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno hysbysiad penodol neu ddogfen arall benodol, y cyfeiriad hwnnw yw cyfeiriad priodol y person at ddibenion cyflwyno'r hysbysiad hwnnw neu'r ddogfen arall honno.

(7) Yn achos cyflwyno hysbysiad neu ddogfen arall nad yw'r person wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno mewn perthynas ag ef neu â hi fel y'i disgrifir yn is-adran (6), os yw'r person wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno dogfennau yn gyffredinol, y cyfeiriad hwnnw yw cyfeiriad priodol y person at ddibenion cyflwyno'r hysbysiad neu'r ddogfen arall.

(8) Yn achos cyflwyno hysbysiad neu ddogfen arall pan na fo'r person wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno fel y'i disgrifir yn is-adran (6) mewn perthynas â'r hysbysiad hwnnw neu'r ddogfen honno, nac wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno dogfennau yn gyffredinol, cyfeiriad priodol y person at ddibenion cyflwyno'r hysbysiad neu'r ddogfen arall yw—

43 Giving notices etc.

(1) This section applies where a provision of this Act or of regulations made under this Act requires or authorises a person to—

(a) notify another person of something, or

(b) give a document to another person (whether the provision uses the word "serve" or "give" or any other term).

(2) The notification or other document may be given to the person in question in any of the following ways—

(a) by handing it to the person;

(b) by leaving it, addressed to the person, at the person's proper address;

(c) by sending it by pre-paid post, addressed to the person at the person's proper address;

(d) if the person has given an address for service using electronic communications, by sending it to the person at that address using an electronic communication that complies with the conditions in subsection (9).

(3) The reference in subsection (2)(a) to handing a notification or other document to a person is—

(a) if the person is a body corporate, a reference to handing it to an officer of the body;

(b) if the person is a partnership, a reference to handing it to a partner.

(4) The reference in subsection (2)(b) and (c) to a notification or other document being addressed to a person is—

(a) if the person is a body corporate, a reference to its being addressed to the body corporate, or to an officer of the body;

(b) if the person is a partnership, a reference to its being addressed to the partnership, or to a partner.

(5) Subsections (6) to (8) apply for the purposes of determining a person's proper address as referred to in subsections (2)(b) and (c).

(6) If the person has given an address for the service of a specific notification or other document, that address is the person's proper address for the purposes of the service of that notification or other document.

(7) In the case of service of a notification or other document in respect of which the person has not given an address for service as described in subsection (6), if the person has given an address for the service of documents generally, that address is the person's proper address for the purposes of the service of the notification or other document.

(8) In the case of service of a notification or other document where the person has neither given an address for service as described in subsection (6) in respect of that notification or document, nor given an address for the service of documents generally, the person's proper address for the purposes of the service of the notification or other document is—

(a) os mai corff corfforedig yw'r person, cyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r corff;

(b) os mai partneriaeth yw'r person, cyfeiriad prif swyddfa'r bartneriaeth;

(c) mewn unrhyw achos arall, preswylfa hysbys ddiwethaf neu fan busnes hysbys diwethaf y person.

(9) Yr amodau y cyfeirir atynt yn is-adran (2)(d) yw bod yr hysbysiad neu'r ddogfen arall—

(a) yn gallu cael ei gyrchu neu ei chyrchu gan y person y'i hanfonir ato,

(b) yn ddarllenadwy ym mhob modd perthnasol, ac

(c) yn gallu cael ei ddefnyddio neu ei defnyddio ar gyfer cyfeirio ato neu ati yn y dyfodol.

(10) At ddibenion yr adran hon—

(a) prif swyddfa cwmni sydd wedi ei gofrestru y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu bartneriaeth sy'n cyflawni busnes y tu allan i'r Deyrnas Unedig yw prif swyddfa'r cwmni hwnnw neu'r bartneriaeth honno yn y Deyrnas Unedig;

(b) ystyr "swyddog", mewn perthynas â chorff corfforedig, yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall y corff corfforedig.

44 Dehongli cyffredinol

(1) Yn y Ddeddf hon—

mae "addasu" ("*modify*") yn cynnwys diwygio, dirymu neu ddiddymu;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr "comisiynydd traffig" ("*traffic commissioner*") yw comisiynydd traffig ar gyfer Cymru a Lloegr a benodir o dan adran 4 o Ddeddf 1981;

ystyr "Deddf 1981" ("*the 1981 Act*") yw Deddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981 (p. 14);

ystyr "Deddf 1985" ("*the 1985 Act*") yw Deddf Trafnidiaeth 1985 (p. 67);

ystyr "gwasanaeth adran 19" ("*section 19 service*") yw gwasanaeth ar gyfer cludo teithwyr ar ffyrdd pan fo pob cerbyd a ddefnyddir yn cael ei ddefnyddio felly o dan drwydded o dan adran 19 o Ddeddf 1985;

mae i "gwasanaeth bysiau cymunedol" yr ystyr a roddir i "community bus service" yn adran 22 o Ddeddf 1985;

ystyr "gwasanaeth Rhan 3 o Atodlen 1" ("*Part 3 of Schedule 1 service*") yw gwasanaeth ar gyfer cludo teithwyr ar ffyrdd pan fo pob cerbyd a ddefnyddir yn cael ei ddefnyddio felly mewn amgylchiadau pan fo'r amodau a nodir yn Rhan 3 o Atodlen 1 i Ddeddf 1981 wedi eu bodloni;

mae i "gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr" yr ystyr a roddir i "public passenger transport services" yn adran 7 o Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 (p. 5);

ystyr "hysbysiad" ("*notice*") yw hysbysiad ysgrifenedig;

(a) if the person is a body corporate, the address of the registered or principal office of the body;

(b) if the person is a partnership, the address of the principal office of the partnership;

(c) in any other case, the person's last known residence or place of business.

(9) The conditions referred to in subsection (2)(d) are that the notification or other document is—

(a) capable of being accessed by the person to whom it is sent,

(b) legible in all material respects, and

(c) capable of being used for subsequent reference.

(10) For the purposes of this section—

(a) the principal office of a company registered outside the United Kingdom or of a partnership carrying on business outside the United Kingdom is their principal office within the United Kingdom;

(b) "officer", in relation to a body corporate, means a director, manager, secretary or other similar officer of the body.

44 General interpretation

(1) In this Act—

"the 1981 Act" ("*Deddf 1981*") means the Public Passenger Vehicles Act 1981 (c. 14);

"the 1985 Act" ("*Deddf 1985*") means the Transport Act 1985 (c. 67);

"community bus permit" ("*trwydded bysiau cymunedol*") has the meaning given in section 22 of the 1985 Act;

"community bus service" ("*gwasanaeth bysiau cymunedol*") has the meaning given in section 22 of the 1985 Act;

"functions" ("*swyddogaethau*") includes powers and duties;

"local authority" ("*awdurdod lleol*") means a county or county borough council in Wales;

"modify" ("*addasu*") includes amend, repeal or revoke;

"notice" ("*hysbysiad*") means notice in writing;

"Part 3 of Schedule 1 service" ("*gwasanaeth Rhan 3 o Atodlen 1*") means a service for the carriage of passengers by road in which every vehicle used is so used in circumstances in which the conditions set out in Part 3 of Schedule 1 to the 1981 Act are met;

"PSV operator's licence" ("*trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus*") has the same meaning as in the 1981 Act;

ystyr "penodedig" ac "a bennir" ("*specified*") (oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall) yw wedi ei bennu mewn rheoliadau;

ystyr "rheoliadau" ("*regulations*") yw rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru;

ystyr "Strategaeth Drafnidiaeth Cymru" ("*Wales Transport Strategy*") yw Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a gyhoeddir o dan adran 2 o Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 (p. 5);

mae "swyddogaethau" ("*functions*") yn cynnwys pwerau a dyletswyddau;

mae i "trwydded bysiau cymunedol" yr ystyr a roddir i "community bus permit" yn adran 22 o Ddeddf 1985;

mae i "trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus" yr un ystyr â "PSV operator's licence" yn Neddf 1981.

(2) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at weithredwr, mewn perthynas â gwasanaeth, yn gyfeiriadau at y person, neu at bob un o'r personau, sy'n darparu'r gwasanaeth; ac mae ymadroddion cysylltiedig (gan gynnwys cyfeiriadau at berson sydd wedi gweithredu gwasanaeth) i'w dehongli yn unol â hynny.

(3) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch amgylchiadau pan fo person o ddisgrifiad penodedig i'w drin at ddibenion is-adran (2) fel pe bai'n darparu gwasanaeth neu fel pe na bai'n darparu gwasanaeth.

45 Mynegai o dermau wedi eu diffinio

Mae'r Tabl isod yn rhestru darpariaethau yn y Ddeddf hon sy'n diffinio neu'n egluro fel arall dermau a ddefnyddir yn y Ddeddf hon (heblaw term nas defnyddir ond mewn adran lle y mae'r term hwnnw wedi ei ddiffinio neu ei egluro)—

TABL

Term	Darpariaeth berthnasol
A bennir ("*specified*")	Adran 44(1)
Addasu ("*modify*")	Adran 44(1)
Awdurdod lleol ("*local authority*")	Adran 44(1)
Comisiynydd traffig ("*traffic commissioner*")	Adran 44(1)
Contract gwasanaeth bysiau lleol ("*local bus service contract*")	Adran 10(1)
Cyfleusterau cysylltiedig ("*related facilities*")	Adran 27(7)
Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru ("*Welsh Bus Network Plan*")	Adran 5(1)(b)
Deddf 1981 ("*the 1981 Act*")	Adran 44(1)
Deddf 1985 ("*the 1985 Act*")	Adran 44(1)
Gwasanaeth adran 19 ("*section 19 service*")	Adran 44(1)
Gwasanaeth bysiau cymunedol ("*community bus service*")	Adran 44(1)
Gwasanaeth bysiau lleol ("*local bus service*")	Adran 1

"public passenger transport services" ("*gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr*") has the meaning given in section 7 of the Transport (Wales) Act 2006 (c. 5);

"regulations" ("*rheoliadau*") means regulations made by the Welsh Ministers;

"section 19 service" ("*gwasanaethau adran 19*") means a service for the carriage of passengers by road in which every vehicle used is so used under a permit under section 19 of the 1985 Act;

"specified" ("*penodedig*" and "*a bennir*") (unless the context requires otherwise) means specified in regulations;

"traffic commissioner" ("*comisiynydd traffig*") means a traffic commissioner for England and Wales appointed under section 4 of the 1981 Act;

the "Wales Transport Strategy" ("*Strategaeth Drafnidiaeth Cymru*") means the Wales Transport Strategy published under section 2 of the Transport (Wales) Act 2006 (c. 5).

(2) References in this Act to an operator, in relation to a service, are to the person, or each of the persons, providing the service; and related expressions (including references to a person having operated a service) are to be construed accordingly.

(3) Regulations may make provision about circumstances in which a person of a specified description is to be treated for the purposes of subsection (2) as providing or not providing a service

45 Index of defined terms

The Table below lists provisions in this Act that define or otherwise explain terms used in this Act (other than a term used only in a section where that term is defined or explained)—

TABLE

Term	Relevant provision
1981 Act ("*Deddf 1981*")	Section 44(1)
1985 Act ("*Deddf 1985*")	Section 44(1)
Active travel route ("*llwybr teithio llesol*")	Section 27(7)
Cross-border service ("*gwasanaeth trawsffiniol*")	Section 20(1)
Community bus permit ("*trwydded bysiau cymunedol*")	Section 44(1)
Community bus service ("*gwasanaeth bysiau cymunedol*")	Section 44(1)
Disembarkation point ("*man disgyn*")	Section 2(b)
Embarkation point ("*man esgyn*")	Section 2(a)
Flexible local bus service ("*gwasanaeth bysiau lleol hyblyg*")	Section 3(a)
Functions ("*swyddogaethau*")	Section 44(1)
Local authority ("*awdurdod lleol*")	Section 44(1)
Local bus service ("*gwasanaeth bysiau lleol*")	Section 1

Gwasanaeth bysiau lleol hyblyg ("*flexible local bus service*")	Adran 3(a)
Gwasanaeth bysiau lleol safonol ("*standard local bus service*")	Adran 3(b)
Gwasanaeth Rhan 3 o Atodlen 1 ("*Part 3 of Schedule 1 service)*	Adran 44(1)
Gwasanaeth trawsffiniol (c*ross-border service*")	Adran 20(1)
Gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr ("*public passenger transport services*")	Adran 44(1)
Gweithredwr ("*operator*")	Adran 44(2)
Hysbysiad ("*notice*")	Adran 44(1)
Llwybr teithio llesol ("*active travel route*")	Adran 27(7)
Man disgyn ("*disembarkation point*")	Adran 2(b)
Man esgyn ("*embarkation point*")	Adran 2(a)
Penodedig ("*specified*")	Adran 44(1)
Rheoliadau ("*regulations*")	Adran 44(1)
Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ("*Wales Transport Strategy*")	Adran 44(1)
Swyddogaethau ("*functions*")	Adran 44(1)
Trwydded bysiau cymunedol ("*community bus permit*")	Adran 44(1)
Trwydded gwasanaeth bysiau lleol ("*local bus service permit*")	Adran 12(2)
Trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus ("*PSV operator's licence*")	Adran 44(1)

46 Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc.

(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol at ddibenion y Ddeddf hon, neu o ganlyniad iddi, neu er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth ynddi, cânt drwy reoliadau wneud—

(a) darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol a darpariaeth ganlyniadol;

(b) darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) addasu unrhyw ddeddfiad (pa bryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir, a chan gynnwys y Ddeddf hon).

47 Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

Mae'r Atodlen (sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol etc.) yn cael effaith.

48 Dod i rym

(1) Daw'r darpariaethau a ganlyn i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol—

(a) adrannau 1 i 3;

Local bus service contract ("*contract gwasanaeth bysiau lleol*")	Section 10(1)
Local bus service permit ("*trwydded gwasanaeth bysiau lleol*")	Section 12(2)
Modify ("*addasu*")	Section 44(1)
Notice ("*hysbysiad*")	Section 44(1)
Operator ("*gweithredwr*")	Section 44(2)
Part 3 of Schedule 1 service ("*gwasanaeth Rhan 3 o Atodlen 1*")	Section 44(1)
PSV operator's licence ("*trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus*")	Section 44(1)
Public passenger transport services ("*gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr*")	Section 44(1)
Regulations ("*rheoliadau*")	Section 44(1)
Related facilities ("*cyfleusterau cysylltiedig*")	Section 27(7)
Section 19 service ("*gwasanaeth adran 19*")	Section 44(1)
Specified ("*penodedig*" and "*pennu*")	Section 44(1)
Standard local bus service ("*gwasanaeth bysiau lleol safonol*")	Section 3(b)
Traffic commissioner ("*comisiynydd traffig*")	Section 44(1)
Wales Transport Strategy ("*Strategaeth Drafnidiaeth Cymru*")	Section 44(1)
Welsh Bus Network Plan ("*Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru*")	Section 5(1)(b)

46 Power to make consequential, transitional etc. provision

(1) If the Welsh Ministers consider it necessary or appropriate for the purposes of, or in consequence of, or for giving full effect to any provision of this Act, they may by regulations make—

(a) supplementary, incidental and consequential provision;

(b) transitional and saving provision.

(2) Regulations under subsection (1) may modify any enactment (whenever enacted or made, and including this Act).

47 Minor and consequential amendments

The Schedule (which makes minor and consequential amendments etc.) has effect.

48 Coming into force

(1) The following provisions come into force on the day after the day on which this Act receives Royal Assent—

(a) sections 1 to 3;

(b) adran 5(6) a (7);

(c) adran 11;

(d) adran 14(2) a (3);

(e) adran 15(1) a (2);

(f) adran 27(3)(b), (4) a (5);

(g) adran 28(3)(b) a (4);

(h) adran 29(2) i (5);

(i) adran 30;

(j) adran 32(2)(b), (8), a (9)(a)(i) a (9)(b)(i);

(k) adrannau 42 i 46;

(l) yr adran hon;

(m) adran 49.

(2) Daw'r darpariaethau a ganlyn i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol—

(a) adran 4;

(b) adran 21.

(3) Daw darpariaethau eraill y Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol Cymreig.

(4) Caiff gorchymyn o dan is-adran (3)—

(a) gwneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed;

(b) pennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol ac ar gyfer ardaloedd gwahanol.

49 Enw byr

Caniateir cyfeirio at y Ddeddf hon fel—

(a) Deddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026, neu

(b) the Bus Services (Wales) Act 2026.

(b) section 5(6) and (7);

(c) section 11;

(d) section 14(2) and (3);

(e) section 15(1) and (2);

(f) section 27(3)(b), (4) and (5);

(g) section 28(3)(b) and (4);

(h) section 29(2) to (5);

(i) section 30;

(j) section 32(2)(b), (8), (9)(a)(i) and (9)(b)(i);

(k) sections 42 to 46;

(l) this section;

(m) section 49.

(2) The following provisions come into force at the end of the period of two months beginning with the day on which this Act receives Royal Assent—

(a) section 4;

(b) section 21.

(3) The other provisions of this Act come into force on a day appointed by the Welsh Ministers in an order made by Welsh statutory instrument.

(4) An order under subsection (3)—

(a) may make transitional or saving provision;

(b) may appoint different days for different purposes and different areas.

49 Short title

This Act may be referred to as—

(a) the Bus Services (Wales) Act 2026, or

(b) Deddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026.

ATODLEN

(a gyflwynir gan adran 47)

MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL ETC.

Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (p. 27)

1 (1) Mae Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 1 (gorchmynion rheoleiddio traffig y tu allan i Lundain Fwyaf), yn is-adran (3B)—

(a) hepgorer paragraff (a);

(b) hepgorer paragraff (b).

(3) Yn Atodlen 9, ym mharagraff 27, hepgorer is-baragraff (3).

Deddf Trafnidiaeth 1985 (p. 67)

2 (1) Mae Deddf Trafnidiaeth 1985 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 6 (cofrestru gwasanaethau lleol)—

(a) yn is-adran (2A), ym mharagraff (a), hepgorer "or 114(3A)" ac "and quality partnership schemes";

(b) hepgorer is-adran (2B);

(c) hepgorer is-adran (7A);

(d) yn is-adran (8), hepgorer "and, in the case of variation, to section 6B of this Act".

(3) Yn adran 6A (ceisiadau i gofrestru etc. pan fo cyfyngiadau mewn grym)—

(a) yn is-adran (1), ym mharagraff (a), hepgorer "or 114(3A)" ac "or a quality partnership scheme";

(b) yn is-adran (8), ym mharagraff (c), hepgorer "or 118(4)";

(c) yn is-adran (12)—

(i) hepgorer y cofnod ar gyfer "quality partnership scheme";

(ii) yn y cofnod ar gyfer "registration criteria", hepgorer paragraff (b);

(iii) yn y cofnod ar gyfer "relevant operator", ym mharagraff (a), hepgorer "or 118(4)".

(4) Hepgorer adran 6B (ceisiadau i gofrestru pan fo cynllun contractau ansawdd mewn grym).

(5) Yn adran 26 (amodau sydd ynghlwm wrth drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus), yn is-adran (1)—

(a) ym mharagraff (b), hepgorer "118(4)," a ", 129(1)(b)";

(b) ym mharagraff (bza), hepgorer ", 134B(7)(c)";

(c) ym mharagraff (ba), hepgorer ", 138".

(6) Yn adran 66 (eithrio pwerau cynghorau penodol i redeg ymgymeriadau bysiau), yn is-adran (1), hepgorer "and 132C".

SCHEDULE

(introduced by section 47)

MINOR AND CONSEQUENTIAL AMENDMENTS ETC.

Road Traffic Regulation Act 1984 (c. 27)

1 (1) The Road Traffic Regulation Act 1984 is amended as follows.

(2) In section 1 (traffic regulation orders outside Greater London), in subsection (3B)—

(a) omit paragraph (a);

(b) omit paragraph (b).

(3) In Schedule 9, in paragraph 27, omit sub-paragraph (3).

Transport Act 1985 (c. 67)

2 (1) The Transport Act 1985 is amended as follows.

(2) In section 6 (registration of local services)—

(a) in subsection (2A), in paragraph (a), omit "or 114(3A)" and "and quality partnership schemes";

(b) omit subsection (2B);

(c) omit subsection (7A);

(d) in subsection (8), omit "and, in the case of variation, to section 6B of this Act".

(3) In section 6A (applications for registration etc. where restrictions are in force)—

(a) in subsection (1), in paragraph (a), omit "or 114(3A)" and "or a quality partnership scheme";

(b) in subsection (8), in paragraph (c), omit "or 118(4)";

(c) in subsection (12)—

(i) omit the entry for "quality partnership scheme";

(ii) in the entry for "registration criteria", omit paragraph (b);

(iii) in the entry for "relevant operator", in paragraph (a), omit "or 118(4)".

(4) Omit section 6B (applications for registration where quality contracts scheme in force).

(5) In section 26 (conditions attached to PSV operator's licence), in subsection (1)—

(a) in paragraph (b), omit "118(4)," and ", 129(1)(b)";

(b) in paragraph (bza), omit ", 134B(7)(c)";

(c) in paragraph (ba), omit ", 138".

(6) In section 66 (exclusion of powers of certain councils to run bus undertakings), in subsection (1), omit "and 132C".

(7) Yn adran 82 (gorsafoedd bysiau: cyfyngiadau ar arferion gwahaniaethol etc.), yn is-adran (4A), hepgorer "or a quality partnership scheme".

(8) Mae adran 93 (cynlluniau consesiwn teithio) wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(a) yn is-adran (1), yn y geiriau agoriadol, ar y diwedd, mewnosoder "other than services within subsection (1A)";

(b) ar ôl is-adran (1), mewnosoder—

"(1A) A service is within this subsection if it is a local bus service for the purposes of section 1 of the Bus Services (Wales) Act 2026 (asc [X])."

(9) Yn adran 134 (rheoliadau, rheolau a gorchmynion), yn is-adran (7), hepgorer paragraff (c).

(10) Yn adran 135 (gweithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau, rheolau a gorchmynion), yn is-adran (8), hepgorer paragraff (c).

Deddf Trafnidiaeth 2000 (p. 38)

3 (1) Mae Deddf Trafnidiaeth 2000 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 139 (gwybodaeth am wasanaethau bysiau)—

(a) yn is-adran (1), ar ôl "Each local transport authority" mewnosoder "whose area is in England";

(b) yn is-adran (4), ar ôl "an authority" mewnosoder "whose area is in England".

(3) Yn adran 143 (pŵer i gael gwybodaeth am wasanaethau lleol), yn is-adran (1), ar ôl "A local transport authority" mewnosoder "whose area is in England".

(4) Yn adran 149 (consesiynau teithio: ad-dalu gweithredwyr)—

(a) yn is-adran (1), ym mharagraff (b), ar ôl "145B(1)" mewnosoder ", other than in respect of a service that is within subsection (1A),";

(b) ar ôl is-adran (1), mewnosoder—

"(1A) A service is within this subsection if it is a local bus service for the purposes of section 1 of the Bus Services (Wales) Act [2026] (asc [X]), and it is—

(a) provided under a local bus service contract entered into under section 10 of that Act, or

(b) provided by the Welsh Ministers under section 18 of that Act.";

(c) yn is-adran (2), ym mharagraff (a)(ii), ar y dechrau, mewnosoder "in respect of a service other than a service that is within subsection (1A),".

(5) Yn adran 153 (prawf cystadleuaeth: swyddogaethau a chytundebau sy'n ymwneud â bysiau)—

(a) yn is-adran (1), ym mharagraff (a)—

(i) hepgorer "quality partnership schemes," yr ail waith y mae'n digwydd;

(ii) hepgorer "ticketing schemes," yr ail waith y mae'n digwydd;

(b) yn is-adran (3), yn y diffiniad o "voluntary agreement", hepgorer ", or under sections 114 to 123 (quality partnership schemes)".

(7) In section 82 (bus stations: restrictions on discriminatory practices etc.), in subsection (4A), omit "or a quality partnership scheme".

(8) Section 93 (travel concession schemes) is amended as follows—

(a) in subsection (1), in the opening words, at the end, insert "other than services within subsection (1A)";

(b) after subsection (1), insert—

"(1A) A service is within this subsection if it is a local bus service for the purposes of section 1 of the Bus Services (Wales) Act 2026 (asc [X])."

(9) In section 134 (regulations, rules and orders), in subsection (7), omit paragraph (c).

(10) In section 135 (procedure for making regulations, rules and orders), in subsection (8), omit paragraph (c).

Transport Act 2000 (c. 38)

3 (1) The Transport Act 2000 is amended as follows.

(2) In section 139 (information about bus services)–

(a) in subsection (1), after "Each local transport authority" insert "whose area is in England";

(b) in subsection (4), after "an authority" insert "whose area is in England".

(3) In section 143 (power to obtain information about local services), in subsection (1), after "A local transport authority" insert "whose area is in England".

(4) In section 149 (travel concessions: reimbursement of operators)—

(a) in subsection (1), in paragraph (b), after "145B(1)" insert ", other than in respect of a service that is within subsection (1A),";

(b) after subsection (1), insert—

"(1A) A service is within this subsection if it is a local bus service for the purposes of section 1 of the Bus Services (Wales) Act [2026] (asc [X]), and it is—

(a) provided under a local bus service contract entered into under section 10 of that Act, or

(b) provided by the Welsh Ministers under section 18 of that Act.";

(c) in subsection (2), in paragraph (a)(ii), at the beginning, insert "in respect of a service other than a service that is within subsection (1A),".

(5) In section 153 (competition test: functions and agreements relating to buses)—

(a) in subsection (1), in paragraph (a)—

(i) omit "quality partnership schemes," the second time it occurs;

(ii) omit "ticketing schemes," the second time it occurs;

(b) in subsection (3), in the definition of "voluntary agreement", omit ", or under sections 114 to 123 (quality partnership schemes)".

(6) Yn adran 155 (sancsiynau), yn is-adran (1)—

(a) ym mharagraff (b), hepgorer ", 118(4), 129(1)(b)";

(b) ym mharagraff (ba), hepgorer ", 134B(7)(c)";

(c) ym mharagraff (c), hepgorer ", 138".

(7) Yn adran 162 (dehongli Rhan II)—

(a) yn is-adran (1)—

(i) hepgorer y cofnodion ar gyfer "appropriate national authority", "exempt continuation proposal", "quality contract", "quality contracts scheme", "quality partnership scheme" a "ticketing scheme";

(ii) yn y cofnod ar gyfer "connecting rail or tram service", hepgorer paragraff (b) a'r "and" o'i flaen;

(b) yn is-adran (4), hepgorer "section 114(2)(a),", "section 116(2)(a), (4)(a), (4A)(a) and, in the second place, (4C),", "section 118(1) and (2)," a "section 129(4),".

(8) Yn Atodlen 10 (prawf cystadleuaeth ar gyfer arfer swyddogaethau bysiau)—

(a) ym mharagraff 1, yn is-baragraff (1)—

(i) hepgorer paragraff (a);

(ii) hepgorer paragraff (b);

(b) ym mharagraff 1, yn is-baragraff (2)—

(i) hepgorer paragraff (a);

(ii) hepgorer paragraff (b);

(c) ym mharagraff 12, yn is-baragraff (2), ym mharagraff (b), hepgorer "a quality partnership scheme" ac ", a ticketing scheme";

(d) ym mharagraff 17, yn is-baragraff (5), ym mharagraff (c), hepgorer "a quality partnership scheme,".

(9) Yn Atodlen 11 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol), hepgorer paragraff 8.

Deddf Trafnidiaeth Leol 2008 (p. 26)

4 (1) Mae Deddf Trafnidiaeth Leol 2008 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer—

(a) adrannau 13 i 21;

(b) adran 26;

(c) adrannau 28 i 32;

(d) adrannau 34 a 35;

(e) adrannau 37 i 43;

(f) yn adran 44, is-adran (1);

(g) adran 49;

(h) yn Atodlen 1, paragraffau 2 a 3;

(i) yn Atodlen 4, paragraff 43.

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

(6) In section 155 (sanctions), in subsection (1)—

(a) in paragraph (b), omit ", 118(4), 129(1)(b)";

(b) in paragraph (ba), omit ", 134B(7)(c)";

(c) in paragraph (c), omit ", 138".

(7) In section 162 (interpretation of Part II)—

(a) in subsection (1)—

(i) omit the entries for "appropriate national authority", "exempt continuation proposal", "quality contract", "quality contracts scheme", "quality partnership scheme" and "ticketing scheme";

(ii) in the entry for "connecting rail or tram service", omit paragraph (b) and the "and" before it;

(b) in subsection (4), omit "section 114(2)(a),", "section 116(2)(a), (4)(a), (4A)(a) and, in the second place, (4C),", "section 118(1) and (2)," and "section 129(4),".

(8) In Schedule 10 (competition test for exercise of bus functions)—

(a) in paragraph 1, in sub-paragraph (1)—

(i) omit paragraph (a);

(ii) omit paragraph (b);

(b) in paragraph 1, in sub-paragraph (2)—

(i) omit paragraph (a);

(ii) omit paragraph (b);

(c) in paragraph 12, in sub-paragraph (2), in paragraph (b), omit "a quality partnership scheme," and ", a ticketing scheme";

(d) in paragraph 17, in sub-paragraph (5), in paragraph (c), omit "a quality partnership scheme,".

(9) In Schedule 11 (minor and consequential amendments), omit paragraph 8.

Local Transport Act 2008 (c. 26)

4 (1) The Local Transport Act 2008 is amended as follows.

(2) Omit—

(a) sections 13 to 21;

(b) section 26;

(c) section 28 to 32;

(d) sections 34 and 35;

(e) sections 37 to 43;

(f) in section 44, subsection (1);

(g) section 49;

(h) in Schedule 1, paragraphs 2 and 3;

(i) in Schedule 4, paragraph 43.

© Crown copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.